Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** | | **AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 9 CHWEFROR 2021 am 2.00 y. p.** | | **TUESDAY, 9 FEBRUARY, 2021 at 2:00 p.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | | **VIRTUAL MEETING** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

R. Llewelyn Jones, Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELOD LLEYG / LAY MEMBER**

Dilwyn Evans

# R H A G L E N

1 **ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **AELOD LLEYG NEWYDD AR GYFER Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

4 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 3 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2020.

5 **CYNGOR SIR YNYS MÔN - CRYNODEB ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2020** (Tudalennau 15 - 22)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

6 **DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH A BLAENORIAETHAU ARCHWILIO MEWNOL 2020/21** (Tudalennau 23 - 28)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

7 **DARPARIAETH SICRWYDD ARCHWILIO MEWNOL 2020/21** (Tudalennau 29 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 **CYFLAWNI Â LLAI - GWASANAETHAU HAMDDEN CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 33 - 44)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

9 **DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/2022** (Tudalennau 45 - 88)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

10 **SIARTR ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 89 - 102)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

11 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 103 - 104)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 9 Chwefror 2021 |
| **Pwnc:** | Aelod Lleyg newydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn dilyn ymddiswyddiad Mr Johnathon Mendoza, Aelod Lleyg, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a yw'n dymuno recriwtio rhywun yn ei le ar gyfer y tymor sy'n weddill, h.y. Mai 2022 neu a ddylid newid y Cyfansoddiad er mwyn lleihau nifer yr aelodau lleyg sydd eu hangen tan y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym. | |

## Cyflwyniad

1. Mae Mr Jonathan Mendoza, Aelod Lleyg ac Is-gadeirydd, wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac fe fynychodd ei gyfarfod olaf ar 1 Rhagfyr 2020.

2. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi bod angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod o leiaf un aelod o'i bwyllgor archwilio yn aelod lleyg.

3. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymestyn y gofyniad hwn; mae ei gyfansoddiad yn nodi y bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cynnwys dau aelod lleyg ac y gallant wasanaethu am dymor penodol i gyd-fynd â thymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, tan Mai 2022 ar hyn o bryd.

4. Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd sy'n gyfrifol am argymell penodiad yr aelodau lleyg.

5. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (a gadarnhawyd ar 20 Ionawr 2021), yn cyflwyno enw newydd, swyddogaethau a chyfridoldebau yhcwanegol ac yn diwygio aelodaeth Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu gan gynnwys angen i draean o aelodau fod yn Aelodau Lleyg. Bydd hefyd angen i'r Cadeirydd fod yn Aelod Lleyg.

6. Os yw'r Pwyllgor yn parhau ag wyth aelod etholedig, byddai felly angen am bedwar aelod lleyg.

7. Mae'r Cyngor yn dal i ddisgwyl am gadarnhad o ddyddiad dechrau'r darpariaethau hynny yn ymwneud â phwyllgorau archwilio ynghyd â natur y newidiadau hynny ac mae'n 'ddyddiad i'w bennu gan y Gweinidog'.

8. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gofyn am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ac rydym ar ddeall mai eu bwriad yw i bethau ddigwydd fel â ganlyn:

   - Ebrill 2021 – enw a swyddogaethau / cyfrifoldebau newydd

   - O fis Mai 2022 – newidiadau i aelodaeth (h.y. cadeirydd yn aelod lleyg a thraean o aelodau yn aelodau lleyg).

9. Bydd felly angen i'r Cyngor ymgymryd ag ymgyrch recriwtio yn 2022 er mwyn recriwtio aelodau lleyg fel paratoad ar gyfer y newid hwn.

## Argymhelliad

10. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried a yw'n dymuno un ai:

   - Recriwtio aelod lleyg newydd ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o'r tymor, sef tan Mai 2022[1] neu

   - gofyn i'r Cyngor ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn lleihau nifer yr aelodau lleyg sydd eu hangen ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ddau aelod lleyg i un, tan y bydd gofynion y ddeddfwriaeth newydd yn dod i rym.

[1] Byddai'r aelod newydd yn gymwys i ymgeisio am ail dymor o bum mlynedd ond dim ond uchafswm o ddau dymor y gellir eu cyflawni.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd) (yn y Gadair)<br>Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Is-gadeirydd) (ar gyfer y cyfarfod hwn)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, G.O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts.<br><br>Aelod Lleyg: Mr Dilwyn Evans |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro (ar gyfer eitem 7)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitem 10)<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Yswiriant a Risg (ar gyfer eitem 12)<br>Rheolwr Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad (ar gyfer eitem 10)<br>Uwch Reolwr Addysg (Sector Uwchradd) (ar gyfer eitem 4)<br>Swyddog Diogelu Data Ysgolion (ar gyfer eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Griffith, Peter Rogers (Cadeirydd) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Mr Jeremy Evans a Bethan Roberts (Archwilio Cymru), Prif Archwilydd (NW), Uwch Archwilydd (NR), Uwch Archwilydd (BJ), Mr Gareth Williams, Gohebydd Democratiaeth Leol |

---

Oherwydd bod yr Is-gadeirydd, a oedd yn cadeirio’r cyfarfod yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd Peter Rogers, yn cael anhawster i gysylltu, cafodd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones ei ethol yn Gadeirydd i gychwyn y cyfarfod. Wedi hynny, ar ôl datrys y broblem gysylltu, cafodd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones ei ethol yn ffurfiol i weithredu fel Is-gadeirydd drwy gydol y cyfarfod.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod arbennig blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2020 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, gyda’r newidiadau a ganlyn -



DRAFT

- Yn y fersiwn Saesneg rhoi “two” yn lle “to” yn llinell gyntaf y pwynt bwled cyntaf dan eitem 3.
- Yn y fersiwn Saesneg rhoi “interest received” yn lle “interest incurred” yn ail linell yr ail bwynt bwled dan eitem 3.
- Yn y fersiwn Saesneg rhoi “distributed” yn lle “distrusted” yn llinell gyntaf y trydydd pwynt bwled dan eitem 3.
- Nodi nad yw’r frawddeg yn y pedwerydd paragraff o dan eitem 3 sy’n dechrau “Mr Howse reported the External that a level of materiality was set at £3.7m which would apply to any local authority in Wales...” yn darllen yn dda a’i bod yn anghyflawn.

Materion yn codi –

Dywedodd Mr Dilwyn Evans, Aelod Lleyg, ei fod wedi gofyn yn y cyfarfod diwethaf am eglurhad ynghylch y Datganiad Cyfrifon mewn perthynas â’r llog a dderbyniwyd, ac yn benodol ynghylch y gwahaniaeth yn y ffigwr ar gyfer y llog a dderbyniwyd yn y Datganiad Cyfrifon drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2020 a’r ffigwr a welir yn y Datganiad Cyfrifon a gyflwynwyd yn y cyfarfod ar 13 Hydref, a’i fod wedi gofyn pam nad oedd y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn adlewyrchu’r newid yn swm y llog a dderbyniwyd. Rhoddwyd sicrwydd y byddai esboniad am yr anghysondeb yn cael ei roi maes o law ond ni chafwyd ymateb. Ymddiheurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 am yr amryfusedd a chadarnhaodd y byddai’n darparu’r eglurhad y gofynnwyd amdano ar ôl y cyfarfod.

## 3. CYNGOR SIR YNYS MÔN – YMATEB AC ADFER YN SGIL COVID-19 – SICRWYDD DROS DRO

Cyflwynwyd, i’r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad Archwilio Allanol yn ymgorffori canfyddiadau’r gwaith a wnaed o bell gan Archwilio Cymru i asesu ymateb y Cyngor i’r argyfwng Covid-19 a’i ymagwedd mewn perthynas ag adfer.

Adroddodd Mr Jeremy Evans, Archwilio Cymru, fod canfyddiadau’r adroddiad yn seiliedig ar gyfarfodydd pwyllgor yr oedd Archwilio Cymru wedi eu harsylwi, dogfennau a adolygwyd a oedd yn cynnwys papurau agenda a dogfennau mewnol a ddarparwyd gan y Cyngor, a chyfarfodydd a gynhaliwyd ar-lein gyda swyddogion a chynghorwyr allweddol. Roedd rhai o’r prif gasgliadau y daethpwyd iddynt yn cynnwys y canlynol -

- Mae’r Cyngor wedi cymryd camau i gadw ei staff a’r cyhoedd yn ddiogel gan roi ei drefniadau cynllunio argyfwng ar waith ym mis Mawrth 2020. Wrth symud ymlaen, mae’r Cyngor yn defnyddio cymysgedd o weithio gartref, yn y swyddfa ac ar safle. Wrth i fwy o wasanaethau’r Cyngor gael eu hailgyflwyno, cymerwyd camau ychwanegol i ddarparu amgylchedd diogel i’r cyhoedd a staff.
- Wrth edrych ymlaen, mae’r Cyngor wedi cydnabod bob amser fod technoleg gwybodaeth yn chwarae rhan bwysig o ran darparu gwasanaethau ac mae cyllideb 2020/21 yn nodi buddsoddiad pellach mewn TG i gefnogi darpariaeth gwasanaeth.
- Er y bu ambell enghraifft o anawsterau ar y cychwyn wrth drosglwyddo cyfarfodydd democrataidd ffurfiol i lwyfan digidol, mae’r Cyngor wedi addasu’n dda i’r amgylchedd cyfarfodydd newydd ac wedi dangos ymrwymiad i sicrhau fod y trefniadau newydd yn gweithio.
- Mae parodrwydd aelodau staff i gael eu hadleoli ac i wneud gwaith neu rolau gwahanol wedi cefnogi cymunedau ar yr Ynys ac wedi cyfrannu at wytnwch gwasanaethau’r Cyngor.
- Mae’r Cyngor wedi gwneud ymdrechion sylweddol i gyfathrebu ag ystod eang o gynulleidfaoedd.

DRAFT

- Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi derbyn adroddiadau manwl sy'n amcangyfrif effaith ariannol gynnar y pandemig Covid-19, yn ogystal â nodi pwysau ar wasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol.
- Mae'r Cyngor yn parhau i weithio ag ysgol lawn o bartneriaid er mwyn cynorthwyo cymunedau'r Ynys a'r rhanbarth ehangach.

Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd o ganfyddiadau dros dro Archwilio Cymru a nodir yn glir yn yr adroddiad a ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau ynghylch y cynnwys.

**Penderfynwyd derbyn a nodi canfyddiadau dros dro Archwilio Cymru fel y'u cyflwynir yn yr adroddiad.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL.**

**4. DIWEDDARIAD AR STRATEGAETH A BLAENORIAETHAU ARCHWILIO MEWNOL 2020/21**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi diweddariad, fel ar 16 Tachwedd 2020, ar y gwaith Archwilio Mewnol ers yr adroddiad diwethaf i'r pwyllgor ar weithgareddau Archwilio Mewnol ym mis Medi 2020, ynghyd â'r blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a'r tymor canol. Roedd yr adroddiad yn fyrrach na'r adroddiad diweddaru chwarterol, yn unol â gofynion y Strategaeth Cyfarfodydd yn ystod y cyfnod argyfwng.

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg fel a ganlyn -

- Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch y gwaith sicrwydd a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf, gan gyfeirio at y tabl ym mharagraff 6 yr adroddiad. O'r archwiliadau a restrwyd, rhoddwyd cyfradd Sicrwydd Sylweddol i dri ohonynt; Sicrwydd Rhesymol i ddau ohonynt a rhoddwyd graddfa Sicrwydd Cyfyngedig i ddau archwiliad arall - Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion a Phroses Gadawyr. (Rhoddwyd copi ar wahân o'r adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig i aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau Portffolio perthnasol.) Ni restrwyd dau archwiliad arall yn y tabl, yn ymwneud â Grantiau Addysg - roedd un yn ymwneud â Grant Datblygu Disgyblion 2019/20 a'r llall mewn perthynas â'r Pwysau Ariannol yn gysylltiedig â'r Dyfarniad Cyflog i Athrawon - wedi cael eu cwblhau hefyd a rhoddwyd Sicrwydd Sylweddol i'r ddau.

  Wrth fanylu ar y Cynllun Gweithredu a statws y risgiau/materion a nodwyd yn yr archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig Rheoli Cronfeydd Answyddogol Ysgolion, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er mai cyfrifoldeb cyrff llywodraethu ysgolion yw goruchwylio cronfeydd answyddogol ysgolion, bod risg i enw da yn gysylltiedig â chronfeydd o'r fath ac y cafwyd achosion o dwyll a chamreoli ar lefel genedlaethol a lleol. Gan fod cronfeydd answyddogol ysgolion yn gysylltiedig â gweithgareddau codi arian ac y gall symiau sylweddol o arian fod ynghlwm â nhw, ystyrir bod y posibilrwydd o dwyll yn uchel. O ystyried y cefndir hwn felly, penderfynodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol asesu'r sefyllfa ar Ynys Môn a chynhaliwyd yr archwiliad ar y cyd â'r Gwasanaeth Dysgu. Amlygodd y Swyddog yr archwiliad fel enghraifft dda o'r diwylliant archwilio cydweithredol y bu'r Gwasanaeth Archwilio yn ceisio ei ddatblygu – ymatebodd y Gwasanaeth Dysgu yn ragweithiol i'r risgiau/materion a godwyd, gan olygu y cafodd llawer iawn o gynnydd ei wneud wrth fynd i'r afael â nhw. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Addysg fod lefel y cydweithio wedi bod yn rhagorol ac y byddai'r Gwasanaeth yn parhau i roi sylw i'r materion yn ystod y misoedd nesaf. Diolchodd yr Aelod Portffolio Addysg i'r ddau wasanaeth hefyd ac anogodd aelodau, yn rhinwedd eu rôl fel llywodraethwyr ysgol, i fynychu'r hyfforddiant a gynlluniwyd ynghylch rheoli

DRAFT

cronfeydd ysgol yn effeithiol (roedd diffyg hyfforddiant yn un o'r risgiau/materion a godwyd) pan gadarnheir y trefniadau.

Yn yr un modd, cafodd y Pwyllgor ei dywys trwy'r adroddiad archwilio Sicrwydd Cyfyngedig Proses Gadawyr gan y Pennaeth Archwilio a Risg a chadarnhawyd fod Adnoddau Dynol wedi bod yn rhagweithiol hefyd wrth ymateb i'r risgiau a'r materion a godwyd gan yr archwiliad.

- Adroddwyd ar y gwaith ar y gweill, fel y gwelir yn y tabl ym mharagraff 9 yr adroddiad sy'n darparu gwybodaeth ynghylch yr archwiliadau sy'n mynd rhagddynt ac ar ba gam yr oeddent ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.
- Cyfeiriwyd at y Fenter Dwyll Genedlaethol – ymarfer bob dwy flynedd sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio gyda gwasanaethau i dynnu data i'w uwchlwytho i'r Porth Atal Twyll Cenedlaethol sy'n waith gorfodol ac y mae'n rhaid ei gwblhau erbyn 1 Rhagfyr 2020 ar gyfer y prif setiau data gofynnol. Ychwanegwyd ymarfer newydd eleni i gyfatebu data i ddarganfod twyll posib mewn perthynas â'r rhaglen gymorth Covid-19. Ym mis Rhagfyr, bydd yn ofynnol i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gyflwyno data ar gyfer y Gronfa Grantiau Busnesau Bach, a'r Gronfa Grant Manwerthu, Lletygarwch a Hamdden.
- Eglurwyd y sefyllfa mewn perthynas â Chamau Gweithredu sy'n rhedeg yn hwyr fel ar 16 Tachwedd 2020, fel y'u gwelir yn y dangosfwrdd 4action yn Atodiad 1 yr adroddiad. Bu gwasanaethau'n gweithio'n galed i fynd i'r afael â materion/risgiau sydd angen sylw, gan adael dim ond pum gweithred sy'n hwyr ar hyn o bryd sy'n ymwneud â chaffael, cyflogres a thalu rhent tai drwy archeb sefydlog. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i weithredu'r holl gamau sy'n weddill.
- Amlinellwyd y blaenoriaethau ar gyfer gweddill y flwyddyn gadw gadw mewn cof hefyd yr angen i barhau i fod yn hyblyg er mwyn ymateb i unrhyw waith newydd sy'n codi ar fyr rybudd ac unrhyw geisiadau gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- Cadarnhawyd y bydd dau ddarn o waith yn cael eu gwneud cyn diwedd y flwyddyn ariannol i roi sicrwydd bod y Gwasanaeth TGCh yn meddu ar y dechnoleg, y capasiti a'r gallu angenrheidiol i gynnal lefel o wasanaeth i alinio ag amcanion craidd y Cyngor ac i sicrhau cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd data'r Cyngor. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi comisiynu Tîm Archwilio TG Dinas Salford i wneud dau ddarn o waith sicrwydd. Mae un darn o waith yn gyfrinachol ond bydd mwy o fanylion yn cael eu darparu maes o law ac mae pwnc yr ail ddarn o waith i'w gadarnhau.
- Nodwyd fod 3 archwiliad yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (y cyfeirir atynt ym mharagraff 33 yr adroddiad) wedi cael eu rhoi o'r neilltu a bernir eu bod yn flaenoriaeth isel ar gyfer sicrwydd. Nid yw meysydd yr archwiliadau – Buddsoddiad mewn cyfleusterau Hamdden; moderneiddio ysgolion a seilwaith yr Ynys - wedi datblygu'n sylweddol fel prosiectau ac felly ni fyddai eu harchwilio ar hyn o bryd yn cynnig unrhyw fudd neu sicrwydd sylweddol.

Ymatebodd y Pennaeth Archwilio a Risg i'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor wrth drafod yr adroddiad, drwy ddarparu'r eglurhad a ganlyn -

- Mewn perthynas â'r risg y byddai archwilio cydweithredol yn cyfaddawdu annibyniaeth a gwrthrychedd y gwasanaeth Archwilio Mewnol, dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg bod dull cydweithredol yn ffordd o weithio y mae'r sector Archwilio Mewnol yn symud tuag ato, ac er ei fod yn golygu dull ar y cyd o ddatrys materion lle mae'r gwasanaeth cleient yn ymgysylltu'n llawn, mae'n rhaid i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol barhau i gadw pellter proffesiynol



DRAFT

fel nad oes gwrthdaro buddiannau. Drwy weithredu ar y cyd, nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dweud wrth y gwasanaeth cleient beth i'w wneud, ond yn hytrach mae'n rhoi mwy o berchnogaeth i'r gwasanaeth cleient ynghylch beth sydd angen ei wneud a dyna pam fod y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi mabwysiadwyd dull archwilio heb argymhellion lle mae risgiau a materion yn cael eu codi yn hytrach na gwneud argymhellion. Yn ogystal, mae dull cydweithredol yn golygu gweithio gyda'r gwasanaeth cleient i gyrraedd nod gyffredin o gyflawni blaenoriaethau corfforaethol a darparu gwasanaethau o ansawdd i drigolion Ynys Môn.

- Ynglŷn â rhychwant yr archwiliad yn ymwneud â rheoli'r risg o dwyll (un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweddill y flwyddyn) sy'n awgrymu cylch gorchwyl eang, eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg y cyflwynwyd adolygiad archwilio mewn perthynas â rheoli'r risg o dwyll i'r Pwyllgor yn gynharach eleni a oedd yn nodi chwech o risgiau a bod angen rhoi sylw iddynt; bydd rhoi'r cynllun gweithredu mewn perthynas â'r risgiau hyn ar waith yn sylfaen i'r gwaith fydd yn cael ei wneud a bydd yn golygu edrych ar strategaeth, polisi a'r diwylliant a'r tôn ar frig y sefydliad sy'n golygu gweithio gyda'r uwch Dîm Arweinyddiaeth i gynyddu ymwybyddiaeth am y risg o dwyll drwy'r Cyngor.

**Penderfynwyd nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL.**

**5. ADRODDIAD GWERTHUSO DIOGELU DATA YN YSGOLION YNYS MÔN – YMWELIAD GWERTHUSIAD CYNTAF AG YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD GAN Y SWYDDOG DIOGELU DATA YSGOLION, GORFFENNAF 2020**

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion a oedd yn darparu dadansoddiad o sefyllfa ysgolion mewn perthynas â chydymffurfio â gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data, ac yn bennaf y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r Swyddog Data Ysgolion yn dilyn yr ymweliad cyntaf ag ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn amlinellu'r camau nesaf i'w cymryd i sicrhau fod pob ysgol yn cydymffurfio â gofynion diogelu data cyn gynted â phosib.

Rhoddodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion wybodaeth gefndirol am yr ymweliadau gwerthuso i 45 o'r 46 ysgol gynradd ac uwchradd ar Ynys Môn a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2019 a mis Chwefror 2020 a chyfeiriodd at ganlyniadau'r ymweliadau gan roi crynodeb o'r canfyddiadau fel a ganlyn -

- Yn gyffredinol, mae arferion rheoli gwybodaeth dydd i ddydd mewn ysgolion yn dderbyniol ond nid yw'r mwyafrif o ysgolion wedi mabwysiadu polisïau a dogfennau allweddol cyfredol gan nad oedd nifer o'r dogfennau hyn wedi cael eu creu ar gyfer ysgolion cyn penodi'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion. Mae'n hanfodol fod y polisïau a dogfennau craidd cyfredol yn cael eu mabwysiadu cyn gynted â phosib.
- Mae angen sicrhau bod prosesau diogelu data penodol, effeithiol a chadarn ar waith yn unol â pholisïau a dogfennau allweddol.
- Mae angen sicrhau bod gan ysgolion Gofnod o Weithgareddau Prosesu (ROPA), gan gynnwys mapiau llif data a Chofrestr Gwybodaeth sy'n cael eu diweddaru.
- Mae angen sicrhau fod gan ysgolion Hysbysiadau Preifatrwydd priodol sydd wedi cael eu diweddaru a'u bod ar gael ac yn cael eu rhannu ag unigolion.
- Mae angen cael trefniadau priodol ar waith gyda phroseswyr data lefel uwch a hefyd gydag ysgolion unigol.
- Mae angen gwneud mwy o waith ar y defnydd o ganiatâd.

- Mae angen diweddaru'r cynllun hyfforddi ac mae angen i ysgolion sicrhau bod eu staff wedi cwblhau'r uned ar-lein.
- Mae angen gwneud gwaith i sicrhau fod yr holl gyrff llywodraethu ysgolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu data a sut i sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio.

Gan fod y broses o gael polisïau, prosesau ac arferion ar waith i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data wedi cychwyn mewn ysgolion, roedd y Swyddog Diogelu Data yn gallu darparu Sicrwydd Rhesymol yn ei hasesiad o'r sefyllfa. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau fod yr holl ysgolion ar yr un lefel ac yn gweithredu'n gyson ar draws yr Ynys. O gofio bod Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar weithredu'r camau sydd angen eu cymryd a'r rhaglen waith ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu'r polisïau, yn ogystal â hyfforddiant yn gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth, rhoddodd y Swyddog ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed ers mis Gorffennaf 2020. Yn ogystal, amlinellodd y camau nesaf a nodwyd ganddi (y manylir arnynt yn adran 26 yr adroddiad hir ynghlwm i'r adroddiad) i sicrhau bod yr holl ysgolion yn gweithredu yn unol â'r gofynion ac yn cyflawni'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt fel Rheolwyr Data sy'n gyfrifol yn y pendraw am sicrhau eu bod yn prosesu data personol yn gyfreithlon.

Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan y Pwyllgor, cadarnhaodd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion y canlynol –

- Nad oedd Ysgol Caergeiliog wedi tanysgrifio i wasanaeth y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ond serch hynny, bydd disgwyl i'r ysgol sicrhau fod dogfennau a pholisïau allweddol ar waith i gydymffurfio'n llawn â'r gofynion o dan ddeddfwriaeth diogelu data.
- Bod y Cynllun i gyflawni'r camau angenrheidiol wedi cael ei drafod â'r ysgolion a bydd yn cael ei weithredu mewn camau er mwyn osgoi rhoi gormod o faich arnynt; cefnogir hyn ymhellach gan gynllun hyfforddi i sicrhau fod ysgolion yn deall y polisïau a'r dogfennau a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt – roedd y Pwyllgor wedi mynegi peth pryder ynghylch pa mor gyflawnadwy oedd y cynllun gweithredu o ystyried yr amgylchiadau heriol y mae ysgolion yn eu hwynebu a'r pwysau sydd arnynt ar hyn o bryd.
- Oherwydd y cyfyngiadau presennol yn ymwneud â Covid, trefnwyd sesiynau hyfforddi rhithwir ar gyfer ysgolion ar ddyddiadau gwahanol er mwyn hwyluso presenoldeb. Yn ogystal, mae canllawiau penodol yn cael eu datblygu ar gyfer llywodraethwyr ysgol, sef Canllaw Diogelu Data y Corff Llywodraethu, fydd yn darparu canllawiau manwl ynghylch cyfrifoldeb llywodraethwyr ysgol dan y GDPR.
- Mae ysgolion wedi bod yn frwdfrydig wrth ymateb i'r gwaith ac maent yn awyddus i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ac yn ddiolchgar am y cymorth a ddarparwyd.
- Bod Deddf Diogelu Data 2018 wedi dod â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr Undeb Ewropeaidd (GDPR) i gyfraith y DU, sy'n golygu y bydd y DU yn dilyn egwyddorion diogelu data'r GDPR ni waeth a yw'n aelod o'r UE ai peidio. Yr hyn sydd angen edrych arno yw cytundebau â darparwyr trydydd parti sy'n prosesu /cadw data personol ar ran ysgolion os yw'r data'n cael ei gadw mewn lleoliad tu allan i'r DU, er mwyn sefydlu a oes angen diwygio'r cytundebau hynny os bydd Prydain yn gadel yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb.
- Bod y Cynllun yn seiliedig ar flaenoriaethau ac mai'r Polisi Diogelu Data yw'r polisi cyffredinol allweddol y bydd rhaid i ysgolion ei fabwysiadu fel mater o flaenoriaeth o dan y GDPR, fel y gwelir yn y Fframwaith Proses Adolygu Polisi, Canllawiau a Dogfennau Diogelu Data Allweddol (Atodiad C yn yr adroddiad) – gan fod y Pwyllgor wedi lleisio peth pryder fod ysgolion yn cael eu gorlwytho â pholisïau a gwybodaeth o ystyried y polisïau a'r gweithdrefnau amrywiol y gofynnir iddynt eu mabwysiadu.

  Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion am yr adroddiad addysgiadol a manwl a diolchwyd am y gwaith a gyflawnwyd hyd yn hyn - sylwadau a gafodd eu hadleisio gan yr Aelod Portffolio Addysg.



DRAFT

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn adroddiad a chanfyddiadau'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion a,**
- **Cymeradwyo'r camau nesaf y mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod yr holl ysgolion yn gweithredu'n unol â gofynion diogelu data.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL.**

## 6. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI TRYSORLYS 2020/21

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa ganol blwyddyn mewn perthynas â Rheoli Trysorlys 2020/21.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 grynodeb o'r prif bwyntiau mewn perthynas â gweithgareddau benthyca a buddsoddi ar ganol blwyddyn gan gyfeirio'n benodol at effaith Covid-19 a chadarnhaodd y cydymffurfiwyd â'r dangosyddion trysorlys a darbodus a nodir yn Natganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2020/21.

Roedd y pwyntiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol –

- Bod y Cyngor yn parhau i roi blaenoriaeth i sicrhau diogelwch cyfalaf a hylifedd ac i dderbyn lefel briodol o enillion sy'n gyson ag archwaeth risg y Cyngor. Lle bo'n bosib, mae'r Cyngor yn defnyddio ei gronfeydd arian ei hun i ariannu gwariant cyfalaf ac nid yw'n benthyca mwy nag sydd ei angen nac yn benthyca cyn i'r angen godi. Fodd bynnag, mae'r gallu i fenthyca'n allanol i ad-dalu'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau os oes angen yn bwysig.
- Roedd gan y Cyngor £42.244m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2020 (£20.208m ar 31 Mawrth 2020). Oherwydd y grantiau mawr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddelio ag argyfwng Covid a'r ffaith bod cyfrifon galw ar gael i'r Cyngor, mae hyn wedi golygu bod y balansau yn y cyfrifon galw yn uwch na'r terfynau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sydd wedi ei chynnwys yn y DSRhT am 2020/21. Er nad oedd modd rhagweld hyn, bydd terfynau gwrth bartïon yn cael eu hasesu a'u hadolygu wrth gynhyrchu'r DSRhT ar gyfer 2021/22.
- Oherwydd mai diogelwch yr arian yw dangosydd allweddol y Cyngor, ystyrir mai buddsoddiadau gydag awdurdodau lleol eraill yw'r ffordd fwyaf diogel o fuddsoddi arian ac mae hyn yn rhoi enillion uwch na'r mwyafrif o gyfrifon galw gyda banciau. Mae'r tabl ym mharagraff 5.9 yr adroddiad yn dangos rhestr o fuddsoddiadau gydag awdurdodau eraill yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Er na fenthycwyd arian yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon, rhagwelir y bydd angen benthyca yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd angen benthyca i gyllido rhan o raglen cyfalaf 2020/21 a gwneir hynny trwy fenthyca mewnol a benthyca allanol. Mae'r benthyca allanol mewn perthynas â chyllido cost cyfalaf o £4.449m ar gyfer cerbydau newydd yn unol ag amodau'r contract gwastraff a ddyfarnwyd i Biffa. Mae'r Cyngor wedi rhagweld y bydd wedi cael benthyg £128.9m ar ddiwedd y flwyddyn a bydd wedi defnyddio £11.7m o gronfeydd llif arian yn lle benthyca.
- Nid oes unrhyw ddyledion wedi cael eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol hyd yma.
- Mae rhai newidiadau i sut y cyllidir y rhaglen gyfalaf oherwydd y disgwylir tanwariant sylweddol yn 2020/21 mewn cynlluniau cyfalaf, yn bennaf Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai. Fel ar 30 Medi 2020, cafwyd gwariant cyfalaf o £11.471m yn erbyn cyllideb wreiddiol o £49.466m a rhagwelir gwariant o £33.755m ar y gyllideb

DRAFT

gyfalaf erbyn diwedd y flwyddyn. Gwelir manylion o sut mae'r tanwariant a ragwelir yn effeithio ar y trefniadau ariannu cyfalaf yn y tabl yn 3.3.2 sy'n arwain at y rhagolwg Gofyniad Cyllido Cyfalaf a welir ym mharagraff 7.4.3.1 yr adroddiad.

Wrth ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd, cododd y Pwyllgor y pwyntiau a ganlyn –

- A yw'r gwariant o £33?755m a ragwelir ar y gyllideb gyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn yn realistig o ystyried mai dim ond £11.471m o wariant a gafwyd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ac o ystyried hefyd fod gan yr Awdurdod hanes o danwario ar ei raglen gyfalaf bob blwyddyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog 151 fod y pandemig Covid-19 a chyfyngiadau cysylltiedig wedi cael effaith sylweddol ar gynnydd cynlluniau cyfalaf ac o'r herwydd ar wariant cyfalaf yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol a bod y gwariant cyfalaf gwirioneddol o £11m ar ganol y flwyddyn yn anarferol o isel. Felly, bydd elfen o ddal i fyny yn ystod ail hanner y flwyddyn; yn ogystal mae gwariant ar nifer o gynlluniau cyfalaf yr Awdurdod wedi'i gynllunio ar gyfer ail hanner y flwyddyn ariannol. Tra bod yr Awdurdod yn tueddu i fod yn or-optomistaidd wrth ragamcanu gwariant cyfalaf, mae gweithgareddau ar gynlluniau yn tueddu i gynyddu tuag at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r tywydd yn ffactor ychwanegol sy'n gallu llesteirio cynnydd ar gynlluniau. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai, sy'n cynrychioli swm sylweddol o wariant, yn gyllideb y gellir ei chario drosodd i'r flwyddyn nesaf. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei monitro'n rheolaidd a bydd yn cael ei hadolygu nesaf ar ddiwedd Chwarter 3. Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw arian yn cael ei golli oherwydd oedi ar brosiectau cyfalaf.
- Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y llog y mae'r Awdurdod yn ei dalu ar ei fenthyciadau, gan gyfeirio'n benodol at gyfraddau'r Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (BBGC), a'r llog y mae'n ei dderbyn ar fuddsoddiadau ac o'r herwydd, a ddylid ystyried adolygu a lleihau benthyciadau allanol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod nifer o fenthyciadau'r Awdurdod yn fenthyciadau hirdymor a'u bod yn cael eu hadolygu'n gyson. Er bod cyfradd y BBGC wedi gostwng, ystyrir na fyddai ad-dalu'r benthyciad yn gynnar yn gost effeithiol gan fod dirwyon llym ynghlwm â gwneud hynny. Yn ogystal, strategaeth yr Awdurdod ers nifer o flynyddoedd yw defnyddio'r arian parod sydd ganddo ar gyfer gwariant cyfalaf a thrwy hynny osgoi taliadau llog.
- Oherwydd bod balansau arian parod yr Awdurdod mor uchel, a fyddai'n bosib darparu cymorth i sectorau busnes/cyflogaeth yr Ynys. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nad yw'r arian sydd gan yr Awdurdod ar gael i'w wario o reidrwydd a bod llawer o'r arian wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, gan gynnwys cwrdd â chostau refeniw'r rhaglen gyfalaf. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn gallu cadw cronfeydd wrth gefn i ddarparu rhwyd diogelwch ar gyfer argyfwng annisgwyl, megis y pandemig presennol. Er bod yr economi yn un o blith ystod o ddyletswyddau statudol yr awdurdod lleol, swyddogaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan yw hyrwyddo'r economi. Mater i'r Cyngor llawn yw penderfynu wrth osod ei gyllideb flynyddol a yw'n dymuno cynyddu'r gyllideb refeniw i helpu i gwrdd ag anghenion yr economi leol ar hyn o bryd. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod terfynau ynghylch yr hyn yr awdurdodir swyddogion a'r Pwyllgor Gwaith ei wneud o ran ymrwymo gwariant refeniw.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad adolygiad canol blwyddyn ar Reoli Trysorlys ar gyfer 2020/21 heb unrhyw sylw pellach.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL.**

DRAFT

## 7. LLYTHYR ARCHWILIO: CRONFEYDD CYFUN GOGLEDD CYMRU MEWN PERTHYNAS Â LLEOEDD I BOBL HŶN MEWN CARTREFI GOFAL

Cyflwynwyd yr adroddiad Archwilio Allanol ynghylch cronfeydd cyfun rhanbarthol mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad ar ffurf dau lythyr, sef y llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn a'r llall at y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn codi materion ynghylch gwerth am arian mewn perthynas â'r trefniadau cyllidebau cyfun presennol yng Ngogledd Cymru yn ymwneud â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal.

Adroddodd Mr Jeremy Evans, Archwilio Cymru, fod Archwilio Cymru wedi cwblhau dau adolygiad yn ddiweddar yn edrych ar ofal preswyl a gofal nyrsio yng Ngogledd Cymru, yn benodol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Wrecsam. Er bod yr adolygiadau'n edrych yn bennaf ar drefniadau lleol, roeddent yn ogystal wedi codi rhai pryderon penodol ynglŷn â chronfa gyfun ranbarthol Gogledd Cymru mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal sydd yn bartneriaeth rhwng pob un o'r chwe chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad yw'r trefniant presennol lle mae arian gan y sefydliadau perthnasol yn cael ei drosglwyddo i gronfa gyfun a weinyddir gan Gyngor Sir Ddinbych a'i ddychwelyd i bob cyfrannwr 24 awr yn ddiweddarach, er ei fod yn bodloni'r gofynion sylfaenol o ran cydymffurfio â safonau Llywodraeth Cymru, yn cynnig gwerth am arian nac yn sicrhau unrhyw un o'r manteision a fwriadwyd drwy gronfa gyfun. Er nad yw Archwilio Cymru wedi profi'r trefniadau mewn rhanbarthau eraill, mae'n deall fod trefniadau cyffelyb ar waith. Mae'r wybodaeth a'r cynigion ar gyfer gwella trefniadau'r gronfa gyfunol wedi cael eu rhannu â Chyngor Môn fel un o bartneriaid y gronfa. Hysbyswyd Llywodraeth Cymru am y pryderon hyn a gofynnwyd am sicrwydd ganddynt ynghylch y camau y bwriadant eu cymryd i gefnogi cyflawniad cronfeydd cyfun yng Nghymru'n well.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud cytundeb cronfa gyfun ar gyfer llety cartref gofal i bobl hŷn. O ystyried gwerth cronfa gyfun ranbarthol Gogledd Cymru (oddeutu £100m), mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i wneud cytundeb o'r fath ac mae angen asesu'r risgiau a chytuno ar weithdrefnau ymlaen llaw. Gan na chynhaliwyd ymgynghoriad ymlaen llaw â'r cynghorau, ac oherwydd bod diffyg eglurder ynghylch amcanion y gronfa gyfun mewn perthynas â gwasanaethau llety cartref gofal ar gyfer pobl hŷn, trafododd y chwe awdurdod lleol a BIPBC eu hoblygiadau o ran cwrdd â'r gofynion technegol sylfaenol o dan y Ddeddf ac, yn seiliedig ar fodel a weithredwyd gan ranbarth Caerdydd, daethpwyd i'r trefniant a ddisgrifir yn Llythyr yr Archwiliwr lle mae cyfraniadau'n cael eu trosglwyddo i gronfa gyfun a'u dychwelyd ar yr un diwrnod. Er bod yr awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, fel rhan o drafodaethau sydd ar y gweill mae'r awdurdodau lleol yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru drwy BIPBC i adolygu'r Ddeddf ac i egluro beth y disgwylir i'r gronfa gyfun ei gyflawni. Byddai cyfrannu at gronfa gyfun a chymryd rhan mewn ymarfer caffael ar y cyd â BIPBC a'r pum awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru heb sefydlu a chytuno ar brosesau ffurfiol ynghylch defnyddio'r cronfeydd cyfun yn creu risgiau i'r Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro bod rhinweddau i rai o'r trefniadau cronfeydd cyfun ac yn ddiweddar cymeradwyodd yr Awdurdod gynllun peilot cronfeydd cyfun gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â'r gyllideb byw â chymorth ar gyfer oedolion ag anghenion dysgu sy'n byw ar Ynys Môn ond bod maint yn gallu effeithio ar effeithiolrwydd trefniadau o'r fath. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y prosiect peilot cronfa gyfun Anableddau Dysgu yn seiliedig ar gytundeb rhwng y ddau bartner sy'n golygu ei fod yn haws ei reoli. Mae cronfeydd cyfun yn gweithio orau pan fyddant ar raddfa fach gan eu bod yn haws eu rheoli ac yn cynhyrchu canlyniadau gwell sydd wedi eu diffinio'n gliriach.

DRAFT

Wrth dynnu sylw at raddfa cronfa gyfun ranbarthol Gogledd Cymru, dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol bod cost flynyddol gyfunol i'r cynghorau weinyddu'r trefniant y gellid ei wario'n fwy cynhyrchiol mewn mannau eraill yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n risg gwneud cyfraniadau i gronfa gyfun Gogledd Cymru heb sicrwydd ynghylch y manteision i'r gwasanaeth a'r defnyddwyr. Er bod yr Awdurdod ond yn cydymffurfio â gofynion sylfaenol y Ddeddf, yn y cyfamser mae o wedi nodi maes mewn perthynas a'r Gwasanaethau Anableddau Dysgu lle mae cronfa gyfun gyda BIPBC yn debygol o fod o fantais i'r gwasanaeth a'i ddefnyddwyr.

Nododd y Pwyllgor y sefyllfa ynglŷn â Chronfa Gyfun Gogledd Cymru mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal fel yr amlinellir yn y Llythyrau Archwilio ac, o fyfyrio ar sylwadau'r Swyddogion a'r Aelod Portffolio a'r amheuon a fynegwyd ynghylch agweddau ymarferol a llywodraethiant Cronfa Gyfun Gogledd Cymru, cadarnhaodd ei fod yn fodlon â safbwynt yr Awdurdod a'i fod yn fodlon ei gefnogi.

**Penderfynwyd nodi'r Llythyrau Archwilio a'u cynnwys ac i gefnogi safbwynt yr Awdurdod ynglŷn â Chronfa Gyfun Gogledd Cymru mewn perthynas â lleoedd i bobl hŷn mewn cartrefi gofal.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL.**

## 8. BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at Ebrill 2021 i'r Pwyllgor ei ystyried.

**Penderfynwyd derbyn y Blaen Raglen Waith heb unrhyw newidiadau.**

## 9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Pendefynwyd, o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

## 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELWCH SEIBR 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seibr 2019/20 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r bygythiadau seibr sy'n wynebu'r Cyngor ac yn darparu trosolwg o rai o'r camau lliniaru sydd ar waith gan y Cyngor i atal y bygythiadau hyn.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad bod rhwydwaith y Cyngor, fel unrhyw sefydliad arall sydd wedi cysylltu â'r rhyngrwyd, yn agored i ymosodiad a bod y wybodaeth helaeth y mae'r Cyngor yn ei chadw, gan gynnwys data sensitif, yn golygu ei bod yn hanfodol fod y risg o ymosodiad seibr llwyddiannus yn cael ei leihau cyn belled ag sy'n rhesymol bosib. Mae ymosodiadau seibr yn amrywio o ran eu dull a'u cymhlethdod ond maent yn gyson o ran eu bwriad i amharu, difrodi neu ddwyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod y risg o ymosodiad seibr ac mae'n cael ei gofnodi felly yn y Gofrestr Risg Gorfforol sy'n cael ei monitro gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Aeth y Rheolwr Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad drwy'r adroddiad blynyddol gyda'r Pwyllgor a chyfeiriodd at y gwahanol fathau o ymosodwyr seibr a'r hyn sy'n eu cymell a'r gwahanol ffurfiau o ymosodiad seibr ac amlinellodd mewn termau cyffredinol y camau lliniaru sydd ar waith gan y Cyngor i leihau pa mor agored yw'r sefydliad i ymosodiadau seibr a digwyddiadau diogelwch ynghyd â'r sicrwydd y maent yn eu darparu.

Wrth ystyried yr adroddiad, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor -

- Pwysigrwydd hyfforddiant diogelwch seibr wrth i fwy o wasanaethau gael eu darparu yn ddigidol ac wrth i gyfran sylweddol o'r gweithlu weithio ar-lein. Cyfeiriwyd yn benodol at unigolion megis yr aelodau Lleyg/Cyfetholedig ar bwyllgorau'r Cyngor sydd â mynediad at wybodaeth ond nad ydynt o reidrwydd yn cael eu cynnwys ym mhrotocolau neu hyfforddiant diogelwch seibr y Cyngor. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad y byddai'n codi'r mater ynghylch darparu hyfforddiant i unigolion nad ydynt yn gynghorwyr nac yn swyddogion gyda'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol.
- A gynhaliwyd unrhyw asesiad meintiol o lwyddiant y camau lliniaru a gymerwyd. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad mai bwriad yr adnodd ychwanegol a ddarparwyd i'r gwasanaeth oedd gwella'r capasiti adrodd a dod ag amrywiol dechnegau ar gyfer nodi digwyddiad ynghyd er mwyn cyflwyno darlun cyflawn.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r sicrwydd y mae'n ei ddarparu.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL.**

## 11. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd, o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

## 12. DIWEDDARIAD AR Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiwygiedig i'r Pwyllgor ei ystyried.

Adroddodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant fod y pandemig Covid-19 wedi achosi newid digynsail i fywyd bob dydd a'i fod wedi arwain at addasu'r blaenoriaethau ac o ganlyniad effeithiau'r lefel o risg rhagdybiedig. Adolygwyd yr holl risgiau corfforaethol ers i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol gael ei chyflwyno ddiwethaf i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2020 gyda phwyslais arbennig ar unrhyw effaith y gallai'r pandemig Covid-19 ei gael ar y risgiau hynny. Yn yr un modd, adolygwyd cofrestr risg pob gwasanaeth yng ngoleuni effaith Covid-19 ac mae unrhyw newidiadau sylweddol yn y risgiau sy'n deillio o hynny wedi cael eu hadlewyrchu yn y gofrestr risg gorfforaethol.

Amlygodd y Swyddog y newidiadau/diwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn sgil yr adolygiad ac maent yn cael eu crynhoi fel a ganlyn -

- Mae risg YM10 (effaith diwygio budd-daliadau ar y galw am wasanaethau) wedi cael ei gau a YM45 (Effaith tlodi ar y galw am wasanaethau) wedi ei roi yn ei le i gydnabod y ffaith nad yw tlodi wedi'i gyfyngu i'r rhai hynny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.
- Yn ogystal ag YM45 uchod, ychwanegwyd pedwar risg newydd i'r gofrestr – YM43 (cysylltiedig â Covid-19) a YM44 (cysylltiedig â'r economi ymwelwyr), YM46 (cysylltiedig â thwyll) a YM47 (cysylltiedig â rheoli coed).
- Oherwydd newid mewn amgylchiadau a/neu gynnydd/lleihad mewn gweithgarwch rheoli, mae lefel y risg gweddilliol a/neu gynhenid wedi newid ar gyfer YM4 (iechyd a diogelwch), YM9 (effaith digwyddiad mawr), YM11 (diogelu), YM13 (newid demograffig), YM15 (moderneiddio ysgolion), YM29 (Sipsiwn a Theithwyr) a YM38 (gwytnwch TG) wedi newid.



DRAFT

- Nodwyd y prif risgiau (coch) i'r Cyngor fel YM9 (effaith digwyddiad mawr), YM28 (diogelwch seibr), YM38 (gwytnwch TG), YM40 (cysylltiedig â Brexit) a YM41 (cysylltiedig â Chyllido), YM43 (cysylltiedig â Covid-19)

Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor, eglurodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant y rhesymeg dros ailddiffinio YM10 trwy gyflwyno'r risg newydd YM45 ac esboniodd for YM44 yn gysylltiedig â gwella seilwaith, cyfleusterau a darpariaeth amwynderau mewn ymateb i gynydd mewn nifer ymwelwyr a oedd yn fater a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr haf.

**Penderfynwyd nodi'r newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel rhan o drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei risgiau ac i dderbyn sicrwydd bod yr Uwch Dîm Rheoli wedi cydnabod y risgiau mewn perthynas â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a'i fod yn eu rheoli.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL.**

**Jonathan Mendoza**
**Cadeirydd**

DRAFFT

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Sir Ynys Môn

## Crynodeb archwiliad blynyddol 2020



Dyma grynodeb ein harchwiliad ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r crynodeb o'n harchwiliad yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Cyngor

### Rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Cyngor yn cynnwys 30 cynghorydd sy'n cynrychioli'r pleidiau gwleidyddol canlynol:

- Plaid Cymru 13
- Y Grŵp Annibynnol 7
- Annibynwyr Ynys Môn 6
- Llafur Cymru 2
- Sedd wag 2

Gwariodd y Cyngor £143.7 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2019-20, yr ail wariant isaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru.

Ar 31 Mawrth 2020, roedd gan y Cyngor £16 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn y gellir eu defnyddio. Mae hyn yn cyfateb i 11% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, y nawfed ganran isaf o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru.

**Ffeithiau allweddol**

Bernir bod un o'r 44 ardal yn Ynys Môn yn perthyn i'r 10% mwyaf difreintiedig o blith ardaloedd Cymru, sef y 19eg isaf o blith y 22 cyngor unedol yng Nghymru[1].

Rhagwelir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn gostwng 0.6% rhwng 2020 a 2040 o 69,896 i 69,499, gan gynnwys gostyngiad o 10.5% yn nifer y plant, gostyngiad o 8.3% yn nifer y boblogaeth oedran gweithio a chynnydd o 22.7% yn nifer y bobl 65 oed a throsodd[2].

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Rydym yn cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifo'n briodol.
- **Gwerth am arian**

  Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol fod wedi'i fodloni ei fod wedi gwneud hyn.
- **Gwelliant parhaus**

  Mae'n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith hefyd i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor yn debygol o fodloni'r gofynion hyn (neu wedi gwneud hynny).
- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

[1] Diffinnir ardal yn y cyd-destun hwn fel 'Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is'. Ffynhonnell: Stats Cymru

[2] Ffynhonnell: Stats Cymru

Ers Gwanwyn 2020, mae'r pandemig parhaus wedi effeithio ar ein gwaith archwilio. Rydym yn cydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac rydym wedi ail-lunio ein rhaglen waith, ac wedi dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio i leihau ei effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, ond gan barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym yn dibynnu ar waith archwilio arall hefyd, a gwaith rheoleiddwyr fel Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Ceir crynodeb o'n canfyddiadau a'n casgliadau isod.**

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon 2019-20 Cyngor Sir Ynys Môn

Bob blwyddyn, rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

### Ar gyfer 2019-20:

- Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 30 Tachwedd 2020.
- Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor a chyda'n gwybodaeth ni am y Cyngor.
- Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 15 Mehefin 2020 yn dda.
- Gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol y Cyngor yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Hydref 2020.
- Yn ogystal â chyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae'n gyfrifol hefyd am ardystio nifer o ffurflenni a hawliadau grant. Bu oedi wrth ardystio'r hawliadau Budd-daliadau Tai ac rydym yn gweithio gyda'r Cyngor i ddiweddaru'r sefyllfa cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, mae nifer y gwallau a nodwyd, drwy ein gwaith archwilio, yn uwch nag y byddem yn ei ddisgwyl ac yn digwydd droeon. Mae hyn yn codi pryderon ynghylch eich trefniadau rheoli ansawdd a'ch sail ar gyfer nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi staff sy'n gweithio yn y maes hwn.
- Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi'r dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2019-20 wedi'i gwblhau.
- Mae ffeithiau a ffigurau allweddol o ddatganiadau ariannol 2019-20 ar gael yma.

## Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Archwiliad o ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi (Tachwedd 2019)

Roedd yr archwiliad a gynhaliwyd gennym yn 2019-20 yn ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael cymorth. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi ystyried a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r 'Ymyrraeth gynnar a'r atal er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi', ond mae cyfleoedd i ymgorffori'r pum ffordd o weithio ymhellach. Gellir gweld yr adroddiad yma.

## Gwelliant Parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio ac adrodd ar welliannau, ac mae'n credu ei fod yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2020-21.

## Cynaliadwyedd Ariannol (Gorffennaf 2020)

Yn ystod 2019-20, buom yn archwilio cynaliadwyedd ariannol pob cyngor yng Nghymru. Daethom i'r casgliad nad yw'n gynaliadwy ariannu arbedion nas gwireddwyd a gorwariant diwedd blwyddyn o gronfeydd cyffredinol wrth gefn yn barhaus, mae angen i'r Cyngor ddatblygu strategaeth ariannol fwy cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau o fewn y cyllid sydd ar gael wrth adeiladu cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio i wella ei gydnerthedd. Gellir gweld yr adroddiad yma.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ar ganfyddiadau ymarfer paru data diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) yng Nghymru. Roedd yr ymarfer yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y 22 awdurdod unedol, i nodi twyll a gordaliadau gwerth cyfanswm o £8 miliwn.  Mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan. Mae'r NFI yn parhau i gael ei datblygu, ac yn yr ymarfer NFI arfaethedig (NFI 2020-2022), bydd gan awdurdodau lleol fynediad at ddata sydd wedi'i baru er mwyn helpu i nodi ceisiadau twyllodrus posibl ar gyfer grantiau cymorth busnes COVID-19.

## Arolygiaethau Eraill

Ystyriwyd adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn hefyd, ynghyd ag unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb.

Arolygodd AGC y Gwasanaethau Oedolion Hŷn ym mis Gorffennaf 2019. Mae'r adroddiad yma.
Cyhoeddwyd eu llythyr adolygu perfformiad awdurdod lleol 2019/20 ym mis Awst 2020. Mae'r adroddiad yma.

Mae Estyn wedi cynnal nifer o arolygiadau yn ogystal â chyhoeddi adroddiadau thematig.
Ni chafwyd unrhyw arolygiadau eraill o Gyngor Ynys Môn yn ystod y cyfnod hwn, ond fel arfer arolygodd Estyn ysgolion lleol, ac roedd gwasanaethau sydd wedi'u cofrestru gydag AGC ar Ynys Môn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Astudiaethau Llywodraeth Leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym yn cynnal astudiaethau ledled y sector llywodraeth leol hefyd i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

## Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol (Mehefin 2019)

Adolygwyd cynnydd awdurdodau cynllunio lleol o ran cyflawni eu cyfrifoldebau newydd. Daethom i'r casgliad nad yw awdurdodau cynllunio yn ddigon gwydn i gyflawni gwelliannau hirdymor oherwydd eu capasiti cyfyngedig a'r her o reoli system gymhleth. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Y 'Drws Blaen' i Ofal Cymdeithasol (Medi 2019)

Ystyriwyd effeithiolrwydd y 'drws blaen' newydd i ofal cymdeithasol, gan edrych yn benodol ar wasanaethau i oedolion. Er bod cynghorau'n atal y galw am ofal cymdeithasol, canfuwyd nad yw gwybodaeth, cyngor a chymorth yn effeithiol yn gyson. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Hydref 2019)

Rydym wedi archwilio sut y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu; gan edrych ar eu haelodaeth, eu cylch gorchwyl, amlder a ffocws cyfarfodydd, y modd y maent yn cyd-fynd â phartneriaethau eraill, adnoddau a threfniadau craffu. Daethom i'r casgliad nad yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn debygol o wireddu eu potensial oni bai y rhoddir rhyddid iddynt i weithredu'n fwy hyblyg ac i feddwl a gweithredu'n wahanol. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Cynnydd o ran gweithredu Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Tachwedd 2019)

Rydym wedi archwilio sut y mae dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn cael eu cyflwyno a'u cyflawni. Gwelwyd fod dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu methu yn aml gan system anghyson, gymhleth a thameidiog. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb (Gorffennaf 2020)

Edrychwyd ar ba mor dda y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i fater cysgu allan. Yn gyffredinol, gwelwyd fod ymateb i COVID-19 yn gyfle i gyrff cyhoeddus ddechrau mynd i'r afael â gwendidau hirsefydlog mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth sydd wedi eu hatal rhag mynd i'r afael â chysgu allan yn y gorffennol. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Deddfu Gwell (Medi 2020)

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio pum adroddiad a gyhoeddwyd rhwng 2019 a heddiw yn edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r her o weithredu deddfwriaeth newydd. Mae

rhoi deddfwriaeth ar waith yn dasg gymhleth, ac mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Senedd roi ystyriaeth fanwl i'r dasg hon pan fyddant yn cynnig ac yn gwneud unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Mae'r papur yn tynnu sylw at yr anawsterau a wynebir gan awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y sector cyhoeddus wrth weithredu eu cyfrifoldebau newydd. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol (Hydref 2020)

Mae cynghorau wedi ymgymryd â gweithgarwch masnachol ar ryw ffurf ers amser maith, ac mae llawer o gynghorau'n archwilio cyfleoedd masnachol ychwanegol i liniaru yn erbyn y pwysau ariannol y maent yn eu hwynebu. Mae'n hadroddiad wedi'i anelu'n benodol at helpu aelodau etholedig ac uwch-swyddogion i archwilio a dyfarnu ar yr effaith bosibl ar eu sefydliadau wrth ystyried a ddylid ymgymryd â gweithgareddau masnacheiddio. Bydd hefyd yn helpu cynghorau i ddangos pa mor dda y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau o safbwynt sicrhau gwerth am arian. Gellir gweld yr adroddiad llawn yma.

## Gwaith sydd ar y gweill ar gyfer 2020-21

Edrychwyd hefyd ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Gallai'r risgiau hyn effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, y defnydd o'i adnoddau a gwelliant parhaus.

Y risg a'r broblem fwyaf arwyddocaol sy'n wynebu cynghorau a'r sector cyhoeddus ehangach yn ystod 2020-21 yw pandemig COVID-19. Rydym wedi llunio ein gwaith i roi sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Cyngor drwy'r cyfnod hwn. Mae'r gwaith a wnaethom yn 2020-21 yn cynnwys:

- Cynllunio adferiad mewn ymateb i bandemig COVID-19
- Prosiect dysgu COVID – helpu i nodi a rhannu dysgu o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i'r pandemig
- Sicrwydd ac asesu risg
- Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor
- Adolygiad o gynllunio'r gweithlu
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal Pobl Hŷn – Cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i’r Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau’r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 9 Chwefror 2021 |
| **Pwnc:** | Diweddariad ar y Strategaeth a'r Blaenoriaethau Archwilio Mewnol ar gyfer 2020-21 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. | |

## Rhagarweiniad

1. O ganlyniad i'r pandemig presennol, mae'r Cyngor wedi gorfod blaenoriaethu ei adnoddau ac ymdrechion ei weithlu, felly mae cynnal 'busnes fel arfer' wedi bod yn anodd. Fodd bynnag, er bod hanner y tîm Archwilio Mewnol wedi cael ei adleoli o fewn y sefydliad tan ddiwedd Awst 2020, mae gwaith 'archwilio mewnol' wedi parhau ac wedi canolbwyntio ar y meysydd sydd â'r gwerth a'r risg fwyaf i'r sefydliad, gan ymateb i geisiadau am sicrwydd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chynnal archwiliadau gorfodol o grantiau penodol.

2. Felly, rydym wedi darparu'r diweddariad byr hwn, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar 27 Ionawr 2021, ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 1 Rhagfyr 2020, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.

## Y CYD-DESTUN CYFREDOL

4. Mae angen bod yn hyblyg i sicrhau bod gwaith archwilio yn cwrdd ag anghenion y Cyngor yn yr amgylchedd risg a rheolaeth hwn sy'n newid yn barhaus.

5. Felly, mae llwyth gwaith y tîm archwilio mewnol yn cael ei adolygu'n gyson, mewn ymgynghoriad agos â'r Rheolwr Risg ac Yswiriant a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

## GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF

| Maes Archwilio | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Trychinebus | Mawr | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant Addysg Llywodraeth Leol – Dyfarniad Cyflog Athrawon – Cost dyfarniad cyflog Athrawon (heb gynnwys 6ed dosbarth) a Phwysau Ariannol yn gysylltiedig â Dyfarniad Cyflog Athrawon | 27/11/20 | **Sylweddol** | 0 | 0 | 0 |
| Grant Addysg Llywodraeth Leol – Grant Datblygu Disgyblion (GDD) - Mynediad | 12/01/21 f1<br>22/01/21 f2 | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |
| Grant Addysg Llywodraeth Leol – Dysgu Proffesiynol i gefnogi a gwella ansawdd ein hathrawon | 12/01/21 | **Sylweddol** | 0 | 0 | 0 |
| Grant Addysg Llywodraeth Leol – Llesiant – Ymagwedd ysgol gyfan ar gyfer iechyd meddwl a llesiant emosiynol | 12/01/21 | **Sylweddol** | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau – Cynnal Cyflenwyr | 26/01/21 | **Cyfyngedig** | 0 | 5 | 5 |
| Panel Rhiantu Corfforaethol | 27/01/21 | **Rhesymol** | 0 | 2 | 3 |

6. Yn unol â chais y Pwyllgor, mae adroddiadau llawn a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer yr adroddiad 'Sicrwydd Cyfyngedig' wedi'u dosbarthu ar wahân i aelodau'r Pwyllgor a'r Aelod Portffolio perthnasol.

7. Bydd y swyddog cyfrifol, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, yn bresennol yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau fydd gennych.

## GWAITH SY'N MYND RHAGDDO

8. Mae nifer o archwiliadau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd a rhoddir blaenoriaeth i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, gan barhau i fod yn hyblyg i ymateb i unrhyw waith sy'n codi ar fyr rybudd, ac unrhyw geisiadau gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

9. Bydd y meysydd blaenoriaeth ar gyfer archwilio a nodwyd yn flaenorol yn cael eu dwyn ymlaen i'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22.

| Maes Archwilio | Gwasanaeth | Rheswm Archwilio | Cam | Dyddiad Arfaethedig yr Adroddiad Terfynol |
|---|---|---|---|---|
| Sicrwydd Rheoli Argyfwng (Llinell gyntaf o sicrwydd) | Corfforaethol | Risg uchel – yn ymwneud â Covid 19; darpariaeth sicrwydd 2020/21 | Treialu | Ebrill 2021 |
| Adennill Dyledion y Cyngor | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | Sgopio a pharatoi | Ebrill 2021 |
| Nodi Anfonebau Dyblyg ac Adennill Taliadau Dyblyg | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 | Gwaith Maes | Ebrill 2021 |
| Tai – Gosod Tai | Tai | Cais gan y Pwyllgor Gwaith | Sgopio a pharatoi | Ebrill 2021 |
| Tai – Digartrefedd | Tai | Risg uchel – cysylltiedig â Covid 19; cais gan y Dirprwy Brif Weithredwr i roi blaenoriaeth i'r gwaith | Gwaith Maes | Ebrill 2021 |
| Archwiliad TG | Corfforaethol | Risg uchel – cysylltiedig â Covid 19; darpariaeth sicrwydd 2020/21 | Gwaith Maes | Ebrill 2021 |
| Taliadau Gofal Arbennig i'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol | Adnoddau | Cais gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Wedi cael ei roi o'r neilltu oherwydd bod y dyddiad talu wedi cael ei ymestyn | Mehefin 2021 |

10. Mae'r gwaith isod hefyd yn mynd rhagddo:

## Menter Atal Twyll Genedlaethol

11. Mae'r ymarferiad a gynhelir bob dwy flynedd dan y Fenter Atal Twyll Genedlaethol wedi cychwyn. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn awdurdodi'r ymarferion dan ei bwerau statudol yn Neddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004.

12. Rydym wedi derbyn y set gyntaf o barau, a oedd yn ymwneud â pharu data ynghylch Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor a'r Gofrestr Etholwyr, er mwyn nodi pobl a allai fod yn hawlio'r rhyddhad pan fo'r Gofrestr Etholwyr yn awgrymu fod oedolion eraill yn byw yn yr eiddo a lle gallai'r rhyddhad gael ei hawlio'n anghyfreithlon. Mae adolygiad cychwynnol o'r parau wedi amlygu problem gydag ansawdd y data ac rydym yn ymchwilio hynny ar hyn o bryd.

13. Yn ogystal, rydym wedi gwneud gwaith gyda Cyswllt Môn ynghylch 'Bathodynnau Glas', lle mae'r parau yn awgrymu y gallai unigolion sydd â bathodyn fod wedi marw neu ble gallai trwydded fod yn cael ei dal mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol.

14. Rydym yn disgwyl i'r Fenter Atal Twyll Genedlaethol ryddhau gweddill y parau ym mis Chwefror 2021.

## Camau Gweithredu sy'n rhedeg yn hwyr

15. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynorthwyo gwasanaethau i weithredu'r holl gamau . Mae'r dangosfwrdd 4action yn Atodiad 1 yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar 27 Ionawr 2021.

16. Bu gwasanaethau yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r 'Materion/Risgiau' sydd angen sylw, gan adael dim ond tair gweithred sy'n hwyr ar hyn o bryd, sy'n ymwneud â Chredyd Cynhwysol, talu rhent trwy archeb sefydlog a sicrhau bod adroddiadau eithriadau'r gyflogres yn cael eu gwirio yn annibynnol.

## Cronfeydd Answyddogol Ysgolion

17. Nododd archwiliad mewnol diweddar o gronfeydd answyddogol ysgolion nad oedd gan ysgolion unrhyw ganllawiau cyfredol ynghylch gweithrediad a threfniadau priodol ar gyfer cronfa ysgol, ac o ganlyniad nid yw nifer o ysgolion wedi trefnu i archwilydd allanol archwilio eu cronfa (adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 1 Rhagfyr 2020).

18. Rydym wedi bod yn cynorthwyo'r Gwasanaeth Dysgu i ddatblygu canllawiau newydd a darparwyd dau ddigwyddiad hyfforddi ar gyfer penaethiaid a llywodraethwyr ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r ffordd briodol o weithredu cronfa ysgol.

19. Yn ogystal, rydym wedi cynnig trefnu ac ariannu archwiliad annibynnol o gronfeydd os yw pennaeth yn cael trafferth penodi archwilydd, neu os nad yw'r gronfa wedi cael ei harchwilio ers nifer o flynyddoedd. Rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Dysgu i nodi statws y gronfa ym mhob ysgol ac rydym wedi rhoi cyngor i benaethiaid mewn perthynas ag ymholiadau penodol am weithrediad eu cronfeydd.


## Ymchwiliadau

20. Er, a bod yn fanwl gywir, nad yw'n waith archwilio mewnol, oherwydd hyfforddiant a sgiliau'r tîm, mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol wedi gofyn i ni gynorthwyo gyda tri archwiliad, ac mae un ohonynt wedi dod i ben a'r ddau arall yn mynd rhagddo.


# ATODIAD 1 – CAMAU SYDD AR EI HÔL HI (DANGOSFWRDD 4ACTION) AR 27 IONAWR 2021

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL


## Overdue Actions





## Total Outstanding Actions




## Outstanding Issues/Risks by Assurance Rating




## Total Issues/Risks by status




## Overdue Issues/Risks by Service

| Analysis Code | Count |
|---|---|
| Tai / Housing | 1 |
| Adnoddau / Resources | 2 |

## All outstanding Issues/Risks by Service

| Analysis Code | Count |
|---|---|
| Tai / Housing | 1 |
| Dysgu / Learning | 16 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol / Social Services | 3 |
| Adnoddau / Resources | 21 |
| Busnes y Cyngor / Council Business | 1 |
| Uwch Dim Arweinyddu / Senior Leadership Team | 1 |
| Trawsnewid / Transformation | 8 |

## Outstanding Red Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|

0 of 0

## Outstanding Limited Assurance Reports

| Analysis Code | Count |
|---|---|
| Primary Schools Themed Audit – Income Collection 171813 | 2 |
| IT Resilience 192003 | 4 |
| Leavers' Process 192014 | 3 |
| Management of School Unofficial Funds 192012 | 4 |

## Outstanding Amber Issues/Risks

| ID | Summary |
|---|---|
| 3975 | Corporate Safeguarding 4 - Current monitoring of School DBS compliance by the Learning Service is ineffective. |
| 3983 | Cyber Security - While IT undertakes daily operational monitoring of network security, there is little high level, proactive monitoring to... |
| 3997 | Corporate Safeguarding 3 - The Council does not have an integrated Council-wide system to record and monitor compliance levels with Disclosure and... |
| 3999 | Cyber Security - Corporate scrutiny and reporting mechanisms for cybersecurity issues and risks are insufficient. This could result in the Council... |

Tudalen 27

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 9 Chwefror 2021 |
| **Pwnc:** | Darpariaeth Sicrwydd Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21 |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn dilyn cyhoeddi canllawiau sector benodol gan CIPFA, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo'r trefniadau presennol ar gyfer sicrhau y bydd gan y Pennaeth Archwilio a Risg sicrwydd digonol i gefnogi'r Farn Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiad ar sgôp. | |

## Rhagarweiniad

1. Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr holl wasanaethau cyhoeddus ac i archwilwyr mewnol mae wedi codi'r cwestiwn a fyddant wedi gallu gwneud digon o waith archwilio mewnol i gael sicrwydd yn ystod 2020/21.

2. Mae hyn yn ystyriaeth allweddol er mwyn cyflawni gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) lle mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio a Risg gyhoeddi barn flynyddol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethiant, rheoli risg a rheoli'r Cyngor. Y farn hon yw un o'r ffynonellau sicrwydd y mae'r Cyngor yn dibynnu arni ar gyfer ei ddatganiad llywodraethiant blynyddol.

3. Mae CIPFA wedi cydnabod ei bod yn anodd i gyrff llywodraeth leol ymdopi â heriau sylweddol a'u bod yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â sut i wneud y defnydd gorau o staff ac adnoddau ariannol er mwyn cyflawni anghenion hanfodol, er nad yw'r disgwyliadau proffesiynol a disgwyliadau rheoleiddwyr ar gyrff llywodraeth leol i sicrhau bod eu trefniadau archwilio mewnol yn cydymffurfio â PSIAS wedi newid.

4. Felly, mae CIPFA wedi paratoi canllawiau sector benodol ar gyfer archwilwyr allanol sy'n gweithio mewn llywodraeth leol neu ar ei ran yn y DU. Mae'n ofyniad i lywodraeth leol yn y DU. Cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Rhagfyr 2020 ac maent ar gael yma:

https://www.cipfa.org/policy-and-guidance/standards/guidance-for-head-of-internal-audit-annual-opinions-202021

5. Mae'n nodi ac yn trafod mewn manylder y chwe gofyniad allweddol ar gyfer cyrff llywodraeth leol y dylai penaethiaid archwilio mewnol neu'r prif swyddog gweithredol archwilio, timau arweinyddiaeth a phwyllgorau archwilio eu dilyn:

- Dylai'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio wneud cynlluniau i gael sicrwydd digonol i gefnogi'r farn flynyddol, gan gymryd i ystyriaeth gwaith archwilio mewnol a ffynonellau sicrwydd eraill. Dylai'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio ddatgelu yn y farn gyffredinol faint o ddibyniaeth a roddwyd ar ffynonellau sicrwydd eraill.

- Dylai'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio, y tîm arweinyddiaeth a'r pwyllgor archwilio adolygu a thrafod capasiti archwilio mewnol lle mae pryderon yn bodoli a datblygu cynllun gweithredu i liniaru'r risg.

- Dylai'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau archwilio i gael y sicrwydd gorau posib.

- Os yw'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio yn ystyried bod cyfyngu ar sgôp yn debygol, dylai'r Pennaeth Archwilio a Risg hysbysu'r tîm arweinyddiaeth a'r pwyllgor archwilio yn brydlon. Dylai'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio amlinellu'r canlyniadau tebygol a aseswyd a chynghori ar gamau unioni i osgoi cyfyngu ar sgôp.

- Dylai'r Farn Archwilio Mewnol Flynyddol gynnwys esboniad clir am unrhyw gyfyngiad ar sgôp ynghyd â'r hyn sydd wedi ei achosi a chynlluniau i fynd i'r afael â'r sefyllfa wrth symud ymlaen.

- Os yw'r Farn Archwilio Mewnol Flynyddol yn cynnwys cyfyngiad ar sgôp, dylai'r awdurdod ddatgan hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

## Blaenoriaethau Archwilio Mewnol

6. Felly, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi adolygu a chytuno ar flaenoriaethau'r tîm archwilio mewnol gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth er mwyn rhoi sylw i'r risgiau newydd a'r newidiadau yn sgil effaith COVID0-19, ac i sicrhau na fydd unrhyw gyfyngu ar sgôp ac y bydd gennym sicrwydd digonol i gefnogi'r farn flynyddol.

7. Y darnau allweddol o waith a fydd yn cyfrannu at y sicrwydd yw:

- Archwiliadau yn gysylltiedig â'r gofrestr risg gorfforaethol

- Adolygiad o'r Ymateb Argyfwng i COVID-19 (Hunan-asesiad) a gwaith Dilyn i Fyny – cwblhawyd rhwng Ebrill a Mehefin 2020

- Sicrwydd Rheoli Argyfwng (Llinell gyntaf o sicrwydd) – mae gwaith maes yn cael ei wneud ar hyn o bryd.

8. Mae'r risgiau'n parhau i newid yn ystod y pandemig ac felly mae'r UDA yn adolygu ac yn diweddaru'r cofrestri risg yn rheolaidd (cofrestri risg corfforaethol, COVID-19, Brexit a gwasanaethau), ac mae hyn yn llywio camau a phenderfyniadau.

9. O ganlyniad, byddwn yn adolygu blaenoriaethau archwilio mewnol er mwyn rhoi ystyriaeth i risgiau sy'n newid, ynghyd â materion a nodwyd yn sgil trafodaethau gydag aelodau ac uwch swyddogion.

## Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau archwilio mewnol

10. Wrth gyflawni'r strategaeth archwilio seiliedig ar risg, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg, gyda chefnogaeth yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, wedi gwneud pob ymdrech i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau archwilio mewnol oedd ar gael yn ystod y pandemig, gan gynnwys:

- symleiddio adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
- culhau ffocws y sgôp archwilio er mwyn archwilio'r prif risgiau yn unig
- llenwi swyddi archwilio gwag ar sail dros dro – penodwyd Uwch Archwiliwr ychwanegol
- prynu arbenigedd archwilio gan ddarparwr allanol – Archwiliad TG gan Gyngor Dinas Salford
- gwerthuso'r holl geisiadau am waith ymgynghorol a blaenoriaethu gwaith sicrwydd a gwaith ymgynghorol sy'n cefnogi'r farn flynyddol – canllawiau a hyfforddiant ar y Gronfa Ysgol, allanoli gwaith archwilio sy'n ymwneud ag ardystio
- osgoi arallgyfeirio staff archwilio mewnol i wneud gwaith gwrth-dwyll – mae'r rhaglen gwrth-dwyll wedi cael ei gohirio tan 2021/22
- lleihau cymaint â phosib y gwaith nad yw'n ymwneud ag archwilio, megis datganiadau Covid-19 ac adleoli staff i'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) a thimau grantiau busnes
- mwy o gyfathrebu â gwasanaethau er mwyn helpu i sicrhau cydweithrediad da ac osgoi oedi diangen wrth gynnal archwiliadau - defnyddiwyd technoleg megis Microsoft Teams yn well
- parhau i fabwysiadau ymagwedd 'archwilio ystwyth' er mwyn osgoi tagfeydd a chael gwared â rhwystrau sy'n atal cynnydd.

## Argymhelliad

11. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn:

- ystyried y trefniadau ar gyfer sicrhau y bydd gan y Pennaeth Archwilio a Risg sicrwydd digonol i gefnogi'r Farn Archwilio Mewnol Flynyddol ar gyfer 2020/21 a
- nodi na fydd unrhyw 'gyfyngiad ar sgôp'.

This page is intentionally left blank

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni â Llai: Gwasanaethau Hamdden – **Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1815A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn yn rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru at swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Alan Hughes, Bethan Roberts, Sara Jones a Jeremy Evans o  gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu ei ganolfannau hamdden â llai o adnoddau ac mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y gwasanaeth, ond mae cyfleusterau sydd mewn cyflwr gwael yn her ariannol.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu ei ganolfannau hamdden â llai o adnoddau ac mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y gwasanaeth, ond mae cyfleusterau sydd mewn cyflwr gwael yn her ariannol 6

Bu gostyngiad yn adnoddau gwasanaeth hamdden y Cyngor ers 2014-15, ac mae cost net y gwasanaeth wedi gostwng 6

Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei wasanaeth hamdden ac mae'n ystyried cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth yn effeithiol; mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei ganolfannau hamdden sydd mewn cyflwr gwael yn risg 6

Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu a monitro perfformiad cadarn ond mae'n cydnabod y gallai wella ei ddealltwriaeth o'r canlyniadau a gyflawnwyd 8

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn hapus gyda'r gwasanaeth hamdden ac mae'r Cyngor yn defnyddio adborth cwsmeriaid i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaeth 9

Atodiadau

Atodiad 1 – ffeithlun o ganlyniadau'r arolwg 10

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Mae'r adolygiad hwn yn ddilyniant i adroddiad cenedlaethol 2015 yr Archwilydd Cyffredinol, **Cyflawni â Llai - Gwasanaethau Hamdden**. Mae'n ystyried effaith gostyngiadau yng nghyllid llywodraeth leol ar wasanaethau hamdden y Cyngor ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau hynny.

2 Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r term gwasanaethau hamdden cyngor i olygu gwasanaethau chwaraeon a hamdden a ddarperir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (er enghraifft, wedi'u tanysgrifennu gan gytundeb partneriaeth neu gontract). Nid yw hyn ond yn ymdrin â darparu a rheoli canolfannau chwaraeon a hamdden, gan gynnwys cyfleusterau dan do ac awyr agored a chanolfannau gwlyb a sych ar safleoedd ysgolion.[1] Nid yw ein diffiniad yn cwmpasu nac yn cynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth, gwasanaethau llyfrgell, parciau/mannau agored, amgueddfeydd/treftadaeth neu'r celfyddydau.

3 Yn adroddiad cenedlaethol 2015, adroddwyd gennym fod y Cyngor yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hamdden yn fewnol a'i fod yn canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o adnoddau. Mae'r Cyngor wedi'i gyfyngu gan yr heriau ariannol y maent yn eu hwynebu ac felly mae'n canolbwyntio ar wella eu hamgylchedd ariannol a gweithredu.

4 Ystyriodd yr adolygiad hwn:

- a oedd adnoddau'r gwasanaeth hamdden wedi lleihau ers adroddiad 2014-15;
- Strategaeth Hamdden y Cyngor a'i berfformiad yn erbyn y weledigaeth a nodir yn y strategaeth;
- trefniadau'r Cyngor ar gyfer ystyried cynaliadwyedd y gwasanaeth hamdden yn y dyfodol ac archwilio ac arfarnu modelau darparu amgen;
- trefniadau llywodraethu a monitro'r Cyngor yn gysylltiedig â pherfformiad hamdden; a
- sut mae defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo am y gwasanaeth hamdden ac a ydynt yn gallu llywio'r gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaeth.

### Yr hyn a ganfuom

5 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu gwerth am arian ac yn pennu modelau ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol?

[1] Mae canolfannau chwaraeon a hamdden Ynys Môn yn Amlwch, Caergybi, Llangefni a Phorthaethwy lle mae'r ganolfan wedi ei leoli mewn ysgol

6 Yn gyffredinol, nodwyd y canlynol: **Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu ei ganolfannau hamdden â llai o adnoddau ac mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y gwasanaeth, ond mae cyfleusterau sydd mewn cyflwr gwael yn her ariannol.**

Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- bu gostyngiad yn adnoddau gwasanaeth hamdden y Cyngor ers 2014-15, ac mae cost net y gwasanaeth wedi gostwng;
- mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei wasanaeth hamdden ac mae'n ystyried cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth yn effeithiol; mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei ganolfannau hamdden sydd mewn cyflwr gwael yn risg;
- mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer llywodraethu a monitro perfformiad, ond mae'n cydnabod y gallai wella ei ddealltwriaeth o'r canlyniadau a gyflawnir; a
- mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn hapus gyda'r gwasanaeth hamdden ac mae'r Cyngor yn defnyddio adborth gan gwsmeriaid i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaeth.

## Cynigion ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnig ar gyfer gwella yr ydym wedi'i nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynnig ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor archwilio cyfleoedd i wneud rhagor o ddefnydd pellach o ddata i wella dealltwriaeth o effeithiau ei ganlyniadau. |

# Adroddiad manwl

## Mae’r Cyngor wedi parhau i ddarparu ei ganolfannau hamdden â llai o adnoddau ac mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y gwasanaeth, ond mae cyfleusterau sydd mewn cyflwr gwael yn her ariannol

### Bu gostyngiad yn adnoddau gwasanaeth hamdden y Cyngor ers 2014-15, ac mae cost net y gwasanaeth wedi gostwng

7 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cadw pob un o'i bedair canolfan hamdden ar agor, ond yn dilyn buddsoddiad Grant Lleoedd Bywiog a Hyfyw, yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi trosglwyddo rhai o'i gyfleusterau chwaraeon a hamdden awyr agored i Gynghorau Tref a Chymuned. Mae hyn wedi lleihau gwariant y Cyngor ar wasanaethau hamdden.
- bu gostyngiad o rhwng pedwar a chwe aelod staff cyfwerth ag amser llawn yn nifer y staff ar y cyfan, a gwnaed diwygiadau i ddisgrifiadau swydd. Nid yw'r telerau ac amodau cyflogaeth wedi newid yn ystod y pedair blynedd diwethaf.
- bu gostyngiad o 77% yng nghyllideb y gwasanaethau hamdden yn y pedair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn incwm o 31% a gostyngiad mewn gwariant o 11%. Ar y cyfan, mae cost net y gwasanaeth hamdden wedi gostwng o £610,600 i £252,400 rhwng 2014-15 a 2018-19.
- fodd bynnag, rhwng 2015-16 a 2018-19 mae'r gwasanaeth wedi gorwario. Mae gorwariant wedi amrywio o 38% i 77%, gorwariant 2018-19 oedd 42%. Mae hyn yn awgrymu nad yw'n bosibl cyflawni o fewn y gyllideb sylfaenol.
- mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod gwariant refeniw gros y Cyngor ar wasanaethau chwaraeon a hamdden wedi gostwng 6% rhwng 2014-15 a 2017-18. O ganlyniad, roedd y gwariant refeniw hamdden fesul pen yn 2017-18 yn yr wyth uchaf yng Nghymru.

### Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei wasanaeth hamdden ac mae'n ystyried cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth yn effeithiol; mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei ganolfannau hamdden sydd mewn cyflwr gwael yn risg

8 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth bennu blaenoriaethau a datblygu ei strategaeth newydd ar gyfer gwasanaethau hamdden. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn cydweithio

ag amrywiaeth o bartneriaid mewn ymdrech i ddarparu dull integredig o ofal iechyd ataliol. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor ystyried sut y mae'n gwreiddio dull integredig ymhellach ar draws gwasanaethau'n fewnol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn meddwl am y modd y gellir manteisio i'r eithaf ar fuddiannau eu gwasanaeth. Mae angen cryfhau cydweithio mewnol ymhellach, yn enwedig gydag addysg, er enghraifft, integreiddio canolfannau hamdden â chyfleusterau addysg fel rhan o'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif.

- mae Strategaeth Hamdden (Drafft) newydd y Cyngor sy'n gysylltiedig â phrif flaenoriaethau Prif Gynllun y Cyngor, yn nodi blaenoriaethau clir i sicrhau y gall adnoddau cyfredol a rhai'r dyfodol gael eu defnyddio'n effeithiol i gyflawni canlyniadau. Gweledigaeth newydd y strategaeth yw cynnal, gwella a darparu cyfleusterau hyblyg, hygyrch a fforddiadwy o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion llesiant Ynys Môn ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r Swyddogaeth Hamdden fewnol bresennol yn cyflawni gweledigaeth y Strategaeth Hamdden:
  - mae nifer y bobl sy'n ymweld â chanolfannau chwaraeon a hamdden Ynys Môn i gymryd rhan mewn ymarfer corff[2] wedi cynyddu 8% ers 2014-15. Mae hyn yn erbyn cynnydd Cymru gyfan o 5% dros yr un cyfnod ac yn gosod y Cyngor y degfed uchaf yng Nghymru.
  - mae'r Cyngor wedi sefydlu dull a diwylliant mwy masnachol i godi lefelau incwm a lleihau cymhorthdal y cyngor.
  - mae'r Cyngor wedi moderneiddio rhai o'i gyfleusterau a'i gyfarpar hamdden, a'i system talu ac archebu, ond mae'n cydnabod bod ei seilwaith adeiladu cyffredinol mewn cyflwr gwael ac yn aneffeithlon.
  - gall y Cyngor ddangos enghreifftiau o well lles drwy hamdden. Er enghraifft, roedd 85% o'r rhai a gymerodd ran yn y Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol o'r farn bod y rhaglen ymarfer corff wedi arwain at welliant mewn iechyd.
- mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn ei gyfleusterau ac offer, gan adnewyddu nifer o safleoedd sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys yr ystafell ffitrwydd yng Nghaergybi, wedi ailosod gan gynnwys offer gwbl newydd, y cae 3G gyntaf ar Ynys Môn ym Mhlas Arthur, Llangefni, a goleuadau LED ym mhob canolfan hamdden i leihau costau ynni.
- mae'r Cyngor wedi asesu ei adeiladau a chanfod eu bod mewn cyflwr gwael a bod angen eu hadnewyddu, sy'n cynyddu'r risg o achosi cost ychwanegol. Mae'r Cyngor wedi ystyried ei sefyllfa ariannol, ei allu i fuddsoddi ac effaith atal prosiect adeiladu niwclear wrth gyflawni ei gynllun. Mae'n cydnabod y bydd sicrhau digon o gyllid cyfalaf i wella'r canolfannau hamdden yn her.

[2] Diffiniwyd fel y nifer o ymweliadau yn ystod y flwyddyn â chanolfannau chwaraeon hamdden Ynys Môn fesul 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. InfoBaseCymru, hamdden a diwylliant, awdurdod lleol: tabl

- mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ddefnyddio agwedd fasnachol at hamdden drwy fuddsoddi yn ei gyfleusterau a thyfu aelodaeth ac incwm i wneud y gwasanaeth yn fwy hunangynhaliol. Mae hyn yn dechrau cael effaith ac er nad yw'r gwasanaeth yn hunangynhaliol eto, yn 2018-19, roedd yr incwm yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur yn Llangefni 9% yn fwy na'i wariant.
- penododd y Cyngor gwmni allanol i adolygu ei wasanaeth hamdden a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus i helpu i sefydlu anghenion lleol a nodi model darparu amgen posibl er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi adolygu ac wedi cytuno ar opsiynau darparu amgen posibl sy'n cynnwys cadw'r gwasanaeth yn fewnol, gosod contractau allanol ar gyfer y sector preifat, ymddiriedolaeth hamdden neu gaffael ar y farchnad agored. Ar gyfer y tymor canolig, bwriad y Cyngor yw cadw'r pedair canolfan hamdden a gweithredu rhaglen fuddsoddi i gynnal y ddarpariaeth bresennol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu a monitro perfformiad cadarn, ond mae'n cydnabod y gallai wella ei ddealltwriaeth o'r canlyniadau a gyflawnir

9 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:

- mae gan y Cyngor strwythur sicrhau atebolrwydd clir ar gyfer ei wasanaeth hamdden, a system dangosfwrdd gwybodaeth reoli sy'n galluogi swyddogion i fonitro perfformiad.
- mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai wneud rhagor o ddefnydd o ddata TG a thechnoleg er mwyn gwella dealltwriaeth o effeithiau ei wasanaeth. Er enghraifft, mae angen rhagor o waith i wneud y mwyaf o allu'r System Hunanwasanaeth i adrodd er mwyn galluogi dulliau mwy penodol ac wedi'u teilwra o gynnig gwasanaethau. Mae potensial y gallai mwy o ddefnydd o ddadansoddiadau data helpu'r Cyngor i nodi rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr a thargedu eu gwasanaethau yn fwy effeithiol. Hefyd, gallai dadansoddiad pellach o'i ddata ddarparu gwell dealltwriaeth o ganlyniadau gwahanol weithgareddau.
- mae swyddogion a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn monitro ac yn herio perfformiad mewn cyfarfodydd rheolaidd ar lefel gwasanaeth. Mae gwaith hamdden yn cael ei adolygu hefyd gan Fwrdd Rhaglen Weddnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau y Cyngor Sir.
- mae heriau blynyddol y gwasanaeth hefyd yn rhoi cyfle i uwch swyddogion a chynghorwyr graffu ar berfformiad ym myd hamdden a'i herio.

## Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fodlon â’r gwasanaeth hamdden ac mae'r Cygor yn defnyddio adborth cwsmeriaid i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaeth

10 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol:


- mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'n harolwg[3] yn hapus â gwasanaethau hamdden y Cyngor :
  - 50% yn credu bod ansawdd y gwasanaeth wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, 32% yn credu bod ansawdd y gwasanaeth wedi aros yr un fath; a
  - 83% yn credu bod y gwasanaeth yn werth da am arian.
- roedd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod llawer am y gwasanaethau hamdden yn lleol:
  - 84% yn ymwybodol o ba wasanaethau sydd ar gael yn lleol; a
  - dywedodd 84% ei bod yn hawdd iddynt ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt.
- mae'r Cyngor yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau mewn ffordd ragweithiol a gall ddangos ei fod yn defnyddio adborth cwsmeriaid i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

[3] Ym mis Ebrill 2019, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru arolwg i gasglu barn dinasyddion am wasanaethau hamdden yn Ynys Môn. Crynhoir canlyniadau'r arolwg yn Atodiad 1.

# Atodiad 1

## Ffeithlun o ganlyniadau'r arolwg

Arddangosyn 2: ffeithlun o ganlyniadau'r arolwg



Y rhesymau mwyaf poblogaidd dros ddefnyddio gwasanaethau hamdden y Cyngor yw:

"Staff croesawgar a chyfeillgar"

**62%**
lleoliad cyfleus

**62%**
costau rhesymol

**34%**
oriau agor cyfleus

Y cyfleusterau hamdden a ddefnyddir amlaf gan yr ymatebwyr yw:

**75%**
Y Gampfa

**24%**
Y Caffi

**20%**
Y Dosbarthiadau ffitrwydd

"Medru gwneud y tro â mwy o fuddsoddiad ariannol ynddyn nhw"

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnogi'r Archwilydd Cyffredinol fel ceidwad sector cyhoeddus Cymru. Ei nod yw sicrhau bod pobl Cymru'n gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth ai peidio a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau. I ddarganfod mwy, ewch i'n gwefan www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **09 CHWEFROR 2021** |
| **PWNC:** | **DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2021/22** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **JEMMA ROBINSON, UWCH GYFRIFYDD** |

**Natur a rheswm dros adrodd**
Ar gyfer sgriwtini – yn gyson â chyngor proffesiynol.

**1.** Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer materion Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymell y dylai'r Aelodau graffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad ar y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (DIR) blynyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys) cyn i'r cyfryw Ddatganiad gael ei gyflwyno i'w fabwysiadu. Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon.

**2.** Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT) a'r atodlenni cysylltiedig, ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgriwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hwn wedi cynhyrchu ARhT ysgrifenedig a awdurdodwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 11 Chwefror 2020.

**3.** O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, does dim newidiadau yn cael eu cynnig i egwyddorion a pholisïau craidd Datganiad 2020/21.

**4.** Fel y nodwyd yn Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys 2020/21, a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 1 Rhagfyr 2020, oherwydd y grantiau mawr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i ddelio ag argyfwng Covid ac argaeledd cyfrifon galw i'r Cyngor, mae balansau'r Cyngor mewn cyfrifon galw wedi bod yn uwch na'r terfynau a gymeradwywir yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21. Wrth gynhyrchu Strategaeth ar gyfer 2020/21 nid oedd modd rhagweld y cyfnod digynsail hwn. Yn wyneb hynny, mae terfynau gwrthbartïon wedi'u hasesu a'u hadolygu wrth gynhyrchu'r Strategaeth ar gyfer 2021/22. Mae Atodiad 8 wedi'i ddiwygio (gan gyfeirio'n benodol at derfyn arian parod Banc NatWest).

**5.** O dan y Côd Ymarfer diwygiedig, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Strategaeth Gyfalaf, sy'n cymryd golwg tymor hwy ar y buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol a sut y bydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei gyllido. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth hon, ynghyd â phenderfyniadau eraill ar y gyllideb. Mae'r Strategaeth Rheoli Trysorlys hon yn eistedd o dan y Strategaeth Gyfalaf ac yn ystyried effaith y strategaeth honno ar fenthyca a buddsoddiadau'r Cyngor. Mae'n nodi sut bydd y ddwy strategaeth yn cael eu gweithredu mewn dull a reolir, sy'n unol â lefel addas o risg y mae'r Cyngor yn dymuno ei chymryd a chan gymryd i ystyriaeth yr arweiniad a nodir yng Nghôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys.

## 6. Argymhellion

- Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2021/22 a gwneud argymhellion neu nodi sylwadau i’w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

- Ystyried y cynnydd yn y terfynau trafodion yn Atodiad 8 (fel y nodwyd ym mhwynt 4 uchod) a gwneud argymhellion neu nodi sylwadau i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

**ATODIAD A**

**DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS**

**STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y DATGANIAD AR Y POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW (DIR) A'R DATGANIAD AR Y POLISI RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2021/22**

## 1. CEFNDIR

**1.1.** Mae CIPFA yn diffinio rheoli trysorlys fel:-

"*The management of the local authority's borrowing, investments and cash flows, its banking, money market and capital market transactions; the effective control of the risks associated with those activities; and the pursuit of optimum performance consistent with those risks*."

Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio polisïau ac amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys (gweler **Atodiad 1**).

**1.2.** Rhaid i'r Cyngor redeg cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n gyffredinol y bydd yr incwm a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â gwariant. Rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan fo angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon risg isel neu offerynnau sy'n gydnaws ag archwaeth risg isel y Cyngor, gan roi blaenoriaeth i hylifedd digonol yn y lle cyntaf cyn yr elw o'r buddsoddiadau.

**1.3.** Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu arweiniad ynghylch anghenion benthyca'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hwy. O bryd i'w gilydd, pan fo'n ddarbodus ac yn economaidd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd ag amcanion cost neu risg y Cyngor.

**1.4** Mae'r cyfraniad a wna'r swyddogaeth rheoli trysorlys i'r Awdurdod yn hollbwysig oherwydd bod y cydbwysedd rhwng y gweithgareddau buddsoddi a'r dyledion yn sicrhau hylifedd neu'r gallu i gwrdd ag ymrwymiadau gwariant pan fo angen, naill ai ar gyfer refeniw dydd i ddydd neu brosiectau cyfalaf mwy. Bydd y gweithgareddau trysorlys yn gweld y cydbwysedd rhwng y costau llog ar ddyledion a'r incwm buddsoddi sy'n codi o adneuon ariannol yn cael effaith ar y gyllideb sydd ar gael. Gan fod balansau arian parod fel rheol yn codi o gronfeydd wrth gefn a balansau, mae'n hanfodol bwysig sicrhau diogelwch digonol ar gyfer y symiau sy'n cael eu buddsoddi oherwydd gall colli prifsymiau arwain at ostwng cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor.

## 2. CÔD YMARFER CIPFA AR REOLI TRYSORLYS

**2.1.** Yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo'r dogfennau isod:-

- Datganiad ar y Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi trosolwg lefel uchel, tymor hir o wariant a chyllido cyfalaf, ynghyd â manylion am unrhyw risgiau cysylltiedig a'r modd y byddant yn cael eu rheoli, yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Nod y strategaeth gyfalaf hon yw sicrhau bod pob aelod etholedig ar y Cyngor llawn yn deall yn llawn yr amcanion polisi tymor hir cyffredinol a'r gofynion strategaeth gyfalaf, y gweithdrefnau llywodraethu a'r archwaeth risg sy'n deillio o hynny.

- Strategaeth Rheoli Trysorlys sy'n amlinellu strategaeth y Cyngor o ran benthyciadau a buddsoddiadau sy'n dilyn ymlaen o'r Strategaeth Gyfalaf ac sy'n nodi'r cyfyngiadau ar fenthyca, yn pennu cyfres o ddangosyddion darbodus ac yn penderfynu archwaeth risg y Cyngor mewn perthynas â buddsoddiadau.

**2.2.** Nodir prif egwyddorion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys yn **Atodiad 2**.

## 3. CYD-DESTUN ALLANOL

**3.1.** Ni fedrir llunio Strategaeth Rheoli Trysorlys heb ystyried y sefyllfa economaidd hefyd, a hynny oherwydd bod cyflwr yr economi'n cael effaith ar gyfraddau llog a geir o fuddsoddiadau, costau benthyca a chadernid ariannol y gwrthbartïon. Mae crynodeb llawn o'r rhagolygon economaidd ar gael yn **Atodiad 3**, ond dyma'r prif bwyntiau y mae angen eu hystyried:-

- Mae twf ariannol y byd wedi bod mewn dirwasgiad yn 2020 ac mae hyn yn debygol o barhau i hanner cyntaf 2021 cyn gwella yn yr ail hanner.
- Disgwylir i chwyddiant gyrraedd uchafswm ychydig dros 2% am gyfnod byr tuag at ddiwedd 2021, ond ffactor byrhoedlog dros dro yw hwn.
- Ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit a'i effaith ar economi'r DU ac Ardal yr Ewro. Fodd bynnag, mae cytuno ar fargen fasnach ym mis Rhagfyr 2020 wedi dileu risg anfantais sylweddol i economi'r DU.
- Mae enillion ar fuddsoddiadau'n debygol o barhau i fod yn eithriadol o isel yn ystod 2020/21 a heb fawr o gynnydd yn y ddwy flynedd ddilynol.

**3.2.** Wedi ystyried y wybodaeth sydd ar gael a'r cyngor gan Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, mae'r tabl isod yn nodi barn y Cyngor ynghylch lefelau cyfraddau llog am y tair blynedd nesaf:-

**Tabl 1**
**Rhagolygon ar gyfer Cyfraddau Llog hyd at fis Mawrth 2024**

| Cyfartaledd Blynyddol | Cyfradd Banc (%) | Cyfraddau Benthyca BBGC (gan gynnwys addasiad cyfradd sicrwydd) | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 5 mlynedd | 25 mlynedd | 50 mlynedd |
| Mawrth 2021 | 0.10 | 0.80 | 1.50 | 1.30 |
| Mehefin 2021 | 0.10 | 0.80 | 1.60 | 1.40 |
| Medi 2021 | 0.10 | 0.80 | 1.60 | 1.40 |
| Rhagfyr 2021 | 0.10 | 0.80 | 1.60 | 1.40 |
| Mawrth 2022 | 0.10 | 0.90 | 1.60 | 1.40 |
| Mehefin 2022 | 0.10 | 0.90 | 1.70 | 1.50 |
| Medi 2022 | 0.10 | 0.90 | 1.70 | 1.50 |
| Rhagfyr 2022 | 0.10 | 0.90 | 1.70 | 1.50 |
| Mawrth 2023 | 0.10 | 0.90 | 1.70 | 1.50 |
| Mehefin 2023 | 0.10 | 1.00 | 1.80 | 1.60 |
| Medi 2023 | 0.10 | 1.00 | 1.80 | 1.60 |
| Rhagfyr 2023 | 0.10 | 1.00 | 1.80 | 1.60 |
| Mawrth 2024 | 0.10 | 1.00 | 1.80 | 1.60 |

Mae gwybodaeth a gafwyd gan Link Asset Services ynghlwm yn **Atodiad 4**.

Gostyngodd cyfraddau llog ar fenthyciadau i gyfraddau isel iawn o ganlyniad i argyfwng COVID ac yn sgil gweithrediadau lleddfu meintiol gan Fanc Lloegr. Roedd y cynnydd annisgwyl o 100 bps yng nghyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar ben yr elw ar y pryd ynghylch enillion o giltiau o 80 bps ym mis Hydref 2019, yn golygu y bu angen, ar y dechrau, ailystyried strategaethau rheoli trysorlys a rheoli risg yr awdurdod i raddau helaeth iawn. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2020, cychwynnodd y Llywodraeth broses ymgynghori ar gyfer adolygu'r elw dros gyfraddau gilt ar gyfer benthyciadau BBGC mewn perthynas â gwahanol fathau o wariant cyfalaf gan awdurdodau lleol. Ar 25.11.20, cyhoeddodd y Canghellor gasgliad yr adolygiad hwnnw a gostyngwyd yr elwon safonol a sicrwydd 1% ond cyflwynwyd gwaharddiad i nadu unrhyw awdurdod lleol a oedd wedi prynu asedau ar gyfer elw yn eu rhaglenni cyfalaf tair blynedd rhag cael benthyca gan y BBGC.

**3.3.** Mae'n annhebygol y bydd y Gyfradd Banc yn codi o 0.10% am gyfnod sylweddol. Mae'n anodd iawn dweud pryd y gallai ddechrau codi. O ystyried y rhagolygon ar gyfer y gyfradd banc sylfaenol, mae'r cyfraddau elw tybiedig ar fuddsoddiadau am gyfnodau hyd at oddeutu dri mis yn ystod pob blwyddyn ariannol fel a ganlyn (mae'r rhagolwg tymor hir ar gyfer cyfnodau dros 10 mlynedd yn y dyfodol):-

2020/21: 0.10%;
2021/22: 0.10%;
2022/23: 0.10%;
2023/24: 0.10%;
2024/25: 0.25%;
Blynyddoedd y tymor hir: 2.00%.

**3.4** Mae'n debygol bod y cydbwysedd cyffredinol o ran risgiau i dwf economaidd yn y DU bellach yn gogwyddo tuag at sefyllfa sy'n fwy ffafriol,  ond mae ansicrwydd mawr oherwydd y firws a pha mor gyflym y gall brechlynnau llwyddiannus fod ar gael a pha mor gyflym y gellir eu rhoi i'r boblogaeth ehangach. Mae ansicrwydd ynghylch Brexit mewn perthynas ag effaith economaidd y fargen y cytunwyd arni rhwng y DU a'r UE. Mewn termau cymharol, nid oes ond ychydig o risg ddomestig yn y DU o godiadau neu ostyngiadau yn y Gyfradd Banc a newidiadau sylweddol yng nghyfraddau tymor byrrach y BBGC. Mae Banc Lloegr i bob pwrpas wedi diystyru defnyddio cyfraddau llog negyddol yn y tymor byr iawn ac mae codiadau yn y Gyfradd Banc yn debygol o fod rai blynyddoedd i ffwrdd o ystyried y disgwyliadau economaidd sylfaenol. Fodd bynnag, mae bob amser yn bosib y gallai arian sy'n llifo i hafanau diogel, oherwydd datblygiadau domestig annisgwyl a datblygiadau mewn economïau mawr eraill, neu gynnydd yn lefelau hyder buddsoddwyr mewn ecwitïau, effeithio ar elw o giltiau, (ac felly gyfraddau'r BBGC), yn y DU.

**3.5** Mae'r cyfraddau ar gyfer cymryd benthyg a rhoi benthyg arian rhwng awdurdodau lleol hefyd wedi gostwng oherwydd y cynnydd mawr yn lefelau'r arian parod y ceisir cartref tymor byr ar eu cyfer ar adeg pan mae'n debygol bod llawer o awdurdodau lleol yn cael anawsterau wrth ragweld yn gywir pryd y byddant yn talu arian a dderbynnir neu pryd y byddant yn derbyn rhagor o ddyraniadau ariannol mawr gan y Llywodraeth.

## 4. SEFYLLFA GYFREDOL Y CYNGOR

### 4.1. Benthyca

**4.1.1** Nodir benthyciadau allanol cyfredol y Cyngor yn Nhabl 2 isod. Ceir dadansoddiad llawn yn **Atodiad 5**.

**Tabl 2**
**Crynodeb o'r Benthyciadau sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd**

| **BENTHYCIADAU BBGC** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **BBGC / BBGC – Aeddfedu** | **BBGC/ Blwydd-dal** | **Benthyciadau Marchnad** | **BBGC Amrywiol** | **Cyfanswm Aeddfedu** |
| Benthyciad sy'n weddill | £121,684k | £208k | £0k | £0k | £121,892k |
| Oes ar gyfartaledd (blynyddoedd) | 30.62 | 5.28 | 0.00 | 0.00 | 30.57 |
| Cyfradd ar gyfartaledd (%) | 4.58 | 9.42 | 0.00 | 0.00 | 4.59 |
| | | | | | |

| BENTHYCIADAU ERAILL | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Salix Benthyciad 1 | Salix Benthyciad 2 | Salix Benthyciad 3 | Salix Benthyciad 4 | Salix Benthyciad 5 | Cyfanswm |
| Balans sy'n Weddill | £58k | £228k | £509k | £224k | £1,614k | £2,633k |
| Dyddiad Ad-dalu | 2024/25 | 2025/26 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | |
| Cyfradd Llog (%) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |

### 4.2 Buddsoddiadau

**4.1.1.** Mae unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn cyfrifon adneuon tymor byr, cyfrifon 'ar alw' a chydag awdurdodau lleol eraill yn y DU. Mae'r balans a fuddsoddir yn y cyfrifon hyn yn newid bob dydd (y balans ar 31 Rhagfyr 2020 oedd £34.8m).

**4.1.2.** Dan y strategaeth rheoli trysorlys gyfredol, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian dros ben drwy sicrhau yn y lle cyntaf ddiogelwch yr adneuon, eu hylifedd yn yr ail le ac yna'r enillion ar y buddsoddiad. Mewn gwirionedd, mae cyfradd yr enillion ar fuddsoddiadau'n cael ei haberthu er mwyn sicrhau'r ddwy egwyddor gyntaf ac, ar hyn o bryd, mae'r elw cyfartaleddol ar fuddsoddiadau yn 0.09% (fel ar 31 Rhagfyr 2020).

## 5. EFFAITH CYNLLUNIAU'R DYFODOL AR FENTHYCA

**5.1.** Caiff gwariant cyfalaf ei gyllido'n rhannol o fenthyciadau ac mae'r rhaglen gyfalaf, fel y nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, i'w gweld yn Nhabl 3 isod**:-**

**Tabl 3**
**Rhaglen Gwariant Cyfalaf Arfaethedig 2021/22 – 2023/24**

| | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant nad yw'n ymwneud â'r CRT** | **15,842** | **16,380** | **17,721** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | **20,313** | **18,816** | **22,670** |
| **Gweithgareddau Masnachol / Buddsoddiadau nad ydynt yn rhai Ariannol** | **0** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **36,155** | **35,196** | **39,891** |
| **Yn cael eu cyllido drwy** | | | |
| **Grantiau Cyfalaf** | **12,042** | **9,181** | **10,282** |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | **0** | **100** | **100** |
| **Arian Wrth Gefn** | **921** | **0** | **0** |
| **Refeniw** | **15,639** | **10,156** | **10,510** |
| **Y Balans a Gyllidir o Fenthyciadau** | **7,553** | **15,759** | **18,999** |

**5.2.** Ffactor pwysig i'w ystyried yw effaith benthyca ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Y GCC yw'r mesur o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca. Nid yw benthyca wedi'i gyfyngu i fenthyciadau allanol gan BBGC (PWLB) gan ei fod hefyd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio balansau ariannol y Cyngor ei hun (benthyca mewnol) ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

**5.3.** Bydd gwariant cyfalaf yn cynyddu'r GCC ond dim ond yn ôl y swm nad yw'n cael ei gyllido o grantiau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn neu refeniw. Bydd y GCC hefyd yn gostwng yn flynyddol gan swm y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) sy'n cael ei roi yn erbyn refeniw. Mae lefel y GCC yn fesur pwysig er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn ymrwymo ei hun i lefelau anfforddiadwy o fenthyca.

**5.4.** Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ad-dalu dyledion ar yr adeg briodol, rhaid i'r Cyngor sicrhau tâl i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn a'r enw ar y tâl hwn yw'r Ddarpariaeth Refeniw Isaf. Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo datganiad DRI cyn pob blwyddyn ariannol. Gwelir y polisi ar gyfer 2021/22 yn **Atodiad 6**. Cafodd DRI y Cyngor ei ddiwygio'n sylweddol yn 2018 ond nid oes unrhyw newidiadau i'r polisi diwygiedig hwnnw ar gyfer 2021/22. Drwy wneud y tâl DRI bob blwyddyn, mae balansau ariannol y Cyngor yn cael eu hailgyflenwi ac mae hynny, yn ei dro, yn lleihau'r lefel o fenthyca mewnol.

**5.5.** Bydd y polisi'n darparu ar gyfer tâl cyfartal ar fenthyciadau hyd at 31 Mawrth 2018 ac, yn achos yr holl fenthyciadau ar ôl y dyddiad hwnnw, bydd y tâl DRI yn seiliedig ar oes ddefnyddiol yr ased sydd wedi cael ei chyllido o'r benthyciad, e.e. os cafodd £1m ei fenthyca i gyllido gwariant cyfalaf ar ased sydd ag oes o 20 mlynedd, byddai'r DRI blynyddol ar y benthyciad hwnnw'n £50k y flwyddyn. Wrth gymryd benthyciadau newydd, bydd y tâl DRI yn cynyddu dros amser a chaniatawyd ar gyfer y cynnydd hwn mewn costau yng nghyllidebau'r Cyngor. Gall y Cyngor ddewis talu mwy o DRI mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gellir hawlio'r gordaliadau DRI hyn yn ôl (sef gordaliadau sydd, yn achos y Cyngor, yn sicrhau digon o arian parod ar gyfer ad-dalu benthyciadau) yn y blynyddoedd diweddarach os bydd angen. Hyd at 31 Mawrth 2020, cyfanswm y gordaliadau a wnaed oedd £212k ac roeddent yn ymwneud yn benodol â benthyciadau Salix lle mae'r DRI a godir ar y cyfrif refeniw wedi'i gyfrifo ar sail oes y benthyciad yn hytrach nag ar oes yr ased a ariannwyd gan y benthyciad. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod i ad-dalu'r benthyciadau pan fydd angen gwneud hynny.

**5.6.** Dangosir effaith cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor a'r tâl DRI ar y GCC a lefel y benthyca allanol a mewnol yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**
**Gofyniad Cyllido Cyfalaf a Benthyciadau 2020/21 i 2023/24**

| | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Cyllido Cyfalaf** | | | | |
| **Balans Agoriadol y GCC** | **136,904** | **145,514** | **148,346** | **159,611** |
| Gwariant Cyfalaf | 39,594 | 36155 | 35,196 | 39,981 |
| Grantiau Cyfalaf Allanol | (16,397) | (12,042) | (9,181) | (10,282) |
| Derbyniadau Cyfalaf | (782) | 0 | (100) | (100) |
| Cyfraniad Refeniw ac Arian Wrth Gefn | (10,669) | (16,560) | (10,156) | (10,510) |
| Darpariaeth Refeniw Isaf | (3,496) | (4,360) | (4,496) | (4,795) |
| **BALANS CAU'R GCC** | **145,154** | **148,346** | **159,611** | **173,815** |

| Benthyciadau Allanol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Balans Agoriadol y Benthyciadau Allanol** | **139,232** | **136,270** | **143,458** | **156,567** |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | 11,746 | 7,553 | 15,760 | 18,999 |
| Benthyca i Gyllido Ad-daliadau ar Fenthyciadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyciadau yn lle Benthyca'n Fewnol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu Benthyciadau | (14,708) | (365) | (2,651) | (2,222) |
| **Balans Cau Benthyciadau Allanol** | **136,270** | **143,458** | **156,567** | **173,344** |
| **Benthyciadau Mewnol** | | | | |
| **Balans Agoriadol Benthyciadau Mewnol** | **(2,328)** | **8,884** | **4,889** | **3,044** |
| Amnewid Benthyca Mewnol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllido Ad-daliadau o Fenthyciadau Allanol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ad-dalu Benthyciadau Allanol | 14,708 | 365 | 2,651 | 2,222 |
| Benthyca i Gyllido Gwariant Cyfalaf | | 0 | | 0 |
| Darpariaeth Refeniw Isaf | (3,496) | (4,360) | (4,496) | (4,795) |
| **Balans Cau Benthyciadau Mewnol** | **8,884** | **4,889** | **3,044** | **471** |
| **CYFANSWM Y BENTHYCIADAU** | **145,154** | **148,347** | **159,611** | **173,815** |

## 6. STRATEGAETH FENTHYCA

**6.1.** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthyciadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) heb ei gyllido'n llawn ac mae dyledion benthyca wedi cael eu defnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae gweithredu yn y fath fodd yn ddarbodus oherwydd bod enillion ar fuddsoddiadau yn isel ac mae risg gwrthbartïon yn fater sy'n parhau i fod angen ei gymryd i ystyriaeth. Fel rhan o'r strategaeth hon, mae'r gallu i fenthyca'n allanol i ad-dalu'r arian wrth gefn a balansau, petai raid, yn bwysig. Mae Tabl 4 yn dangos y byddai o bosib angen benthyca £8.884m yn allanol petai angen brys. Dyma'r swm a ddefnyddiwyd o arian wrth gefn a balansau'r Cyngor yn y gorffennol i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn lle cymryd benthyciadau.

**6.2.** Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2021/22. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig i ymateb i amgylchiadau sy'n newid:-

- Os teimlir bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir (e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant), yna bydd benthyciadau tymor hir yn cael eu gohirio ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthyca tymor byr os bydd yn gost-effeithiol i wneud hynny.
- Os teimlir bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer uwch yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr nag a ragwelir ar hyn o bryd, efallai oherwydd cyflymu dyddiad cychwyn a lefel y cynnydd mewn cyfraddau canolog yn yr UDA a'r DU, cynnydd mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn is nag y rhagwelir y byddant yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r Pwyllgor hwn cyn gynted ag y bo modd.

## 6.3. Benthyca Mewnol yn erbyn Benthyca Allanol

**6.3.1.** Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthyca mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisïau blaenorol i allanoli'r holl fenthyca yn parhau i fod yn ddilys, er enghraifft:-

- Gan fod y Gyfradd Banc a chyfraddau'r BBGC yn parhau i fod yn anarferol o isel yn hanesyddol, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli eu strategaeth o gymryd benthyciadau allanol newydd.

**6.3.2.** Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, er enghraifft:-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn methu o ran y ddyled), felly bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthyca a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch ei fuddsoddiadau.

**6.3.3** O blaid mewnoli, dros y tymor canol, disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthyca allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthyca mewnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

**6.3.4** Fodd bynnag, rhaid pwyso a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthyca allanol tymor hir yn 2021/22 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn uwch. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnol i lif arian a bydd yn cyfyngu ar lefel bosib y benthyca mewnol.

## 6.4 Benthyca ymlaen llawn i gwrdd ag Anghenion

**6.4.1** Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.

**6.4.2** Wrth benderfynu a ddylid benthyca cyn bod angen gwneud hynny, bydd y Cyngor yn:-

1. sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrwydd y portffolio dyled cyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthyca cyn i'r angen godi;
2. sicrhau bod cyfrifoldebau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol, wedi eu hystyried;
3. pwyso a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthyca;
4. ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;
5. ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio; ac
6. ystyried effaith benthyca ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrthbarti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.

**6.4.3** Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd i fenthyca cyn bod angen yn amodol ar werthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mecanwaith adrodd canol-blwyddyn neu flynyddol.

### 6.5. Aildrefnu Dyledion

**6.5.1** Mae'n annhebygol y byddir yn aildrefnu'r benthyciadau yn ein portffolio dyled ar hyn o bryd gan fod gwahaniaeth mawr iawn o hyd rhwng cyfraddau ad-dalu cynamserol a chyfraddau benthyca newydd, er bod yr elw cyffredinol o ran cyfraddau BBGC dros gynnyrch enillion gilt wedi ostwng 100 bps ym mis Tachwedd 2020.

**6.5.2** Bydd y rhesymau dros unrhyw ad-drefnu yn cynnwys:-

- cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
- cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys; a
- gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadalrwydd ariannol).

**6.5.3** Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes unrhyw bosibilrwydd o gwbl o wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi ostwng i ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar ddyledion cyfredol.

**6.5.4** Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf sy'n ymarferol bosib wedi iddynt ddigwydd.

### 6.6. Proffil Dyledion

**6.6.1** Fel y gwelir yn **Atodiad 5**, bydd y benthyciadau presennol yn cael eu had-dalu mewn gwahanol flynyddoedd hyd at 2068/69. Fel rhan o unrhyw benderfyniad ar fenthyca yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn anelu at sicrhau bod y dyddiad ad-dalu'n cael ei drefnu er mwyn gwastatau'r ad-daliadau i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ond rhoddir blaenoriaeth i'r gyfradd llog sy'n daladwy pan benderfynir y math o fenthyciad (aeddfedrwydd neu flwydd-dal) a chyfnod y benthyciad.

## 7. STRATEGAETH FUDDSODDI

**7.1** Cyllid mewnol: Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif arian a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd ar gyfer buddsoddi am hyd at 12 mis). Fel arfer, mae modd cael enillion uwch drwy fuddsoddi am gyfnodau hirach. Er bod angen y rhan fwyaf o falansau ariannol i reoli cynnydd a gostyngiadau mewn llif arian, lle gellir dod o hyd i symiau ariannol y gellid eu buddsoddi am gyfnodau hirach, bydd y gwerth a geir o fuddsoddiadau tymor hir yn cael ei asesu'n ofalus.

- Os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o godi'n sylweddol yn ystod y cyfnod amser dan sylw, yna rhoddir ystyriaeth i gadw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau fel rhai tymor byr neu amrywiadwy.

- Ar y llaw arall, os tybir bod y Gyfradd Banc yn debygol o ostwng o fewn y cyfnod hwnnw, ystyrir manteisio ar yr cyfraddau uwch sydd ar gael ar y pryd a chadw'r buddsoddiadau i mewn am gyfnodau hwy.

### 7.2 Rheoli Risg

**7.2.1.** Mae CIPFA wedi ehangu ystyr 'buddsoddiadau' i gynnwys buddsoddiadau ariannol ac anariannol. Mae'r adroddiad hwn yn delio â buddsoddiadau ariannol yn unig (fel y cânt eu rheoli gan y tîm rheoli trysorlys). Caiff buddsoddiadau anariannol, sef, yn ei hanfod, prynu asedau sy'n cynhyrchu incwm, eu cynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf (adroddiad ar wahân).

**7.2.2** Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth yr isod:-

- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Canllawiau");
- Côd Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector CIPFA ar Reoli Trysorlys yn y Sector Cyhoeddus 2017 ("y Côd");
- Nodiadau Canllaw Rheoli Trysorlys CIPFA 2018;
- Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch yn gyntaf, hylifedd y portffolio yn ail ac yna'r elw (enillion).

**7.2.3** Mae'r canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru a CIPFA'n rhoi blaenoriaeth uchel i reoli risg. Mae'r Awdurdod hwn wedi mabwysiadu ymagwedd ddarbodus tuag at reoli risg ac mae'n diffinio ei archwaeth risg fel a ganlyn: -

1. Defnyddir **meini prawf sylfaenol ran statws credyd** er mwyn cynhyrchu rhestr o wrthbartïon sy'n addas iawn i dderbyn credyd. Mae hyn hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac yn osgoi'r risg sy'n gysylltiedig â chanolbwyntio ar un gwrtbarti. Y graddfeydd allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrthbartion yw'r graddfeydd tymor byr a thymor hir.

2. **Gwybodaeth arall**: nid statws credyd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad; mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus, a hynny ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau'n gweithredu ynddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sy'n adlewyrchu barn y marchnadoedd. I gyflawni hyn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i gadw golwg ar brisiau'r farchnad megis yswirio colledion credyd ("**credit default swaps**") ac yn ychwanegu'r wybodaeth honno at y graddfeydd credyd.

3. Bydd **ffynonellau gwybodaeth eraill** a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfranddaliadau ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'r sector bancio er mwyn sefydlu'r broses sgriwtini fwyaf cadarn mewn perthynas ag addasrwydd gwrthbartïon y gellir bod yn buddsoddi ynddynt.

4. Mae'r Awdurdod hwn wedi diffinio'r rhestr o'r **mathau o offerynnau buddsoddi** y mae gan y tîm rheoli trysorlys awdurdod i'w defnyddio. Mae dwy restr yn **Atodiad 7** dan y categorïau 'penodol' ac 'amhenodol'.
    - Mae **buddsoddiadau penodol** yn golygu'r rheini sydd â lefel uchel o ansawdd credyd ac a fydd yn aeddfedu o fewn blwyddyn. Mae'r holl fuddsoddiadau gydag awdurdodau lleol hefyd yn fuddsoddiadau penodol waeth beth yw hyd y cyfnod tan y byddant yn aeddfedu.
    - **Buddsoddiadau amhenodol** yw'r rheini â lefel is o ansawdd credyd. Gallant fod am gyfnodau sydd dros flwyddyn ac/neu maent yn offerynnau mwy cymhleth y bydd angen i'r Aelodau a'r swyddogion roddi mwy o ystyriaeth iddynt cyn eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio. Mae buddsoddiadau, [heblaw buddsoddiadau gydag awdurdodau lleol], a fyddai'n fuddsoddiadau penodol ar wahân i fod yn wreiddiol am gyfnod hwy na 12 mis, yn parhau i fod yn rhai amhenodol hyd yn oed pan fydd y cyfnod sy'n weddill tan iddynt aeddfedu yn llai na deuddeng mis.)

5. **Terfyn buddsoddiadau amhenodol**. Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd yn cyfyngu cyfanswm y defnydd o fuddsoddiadau amhenodol drwy sicrhau na wneir unrhyw fuddsoddiad amhenodol heb ganiatâd ymlaen llaw gan y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw fuddsoddiadau amhenodol, nac yn meddwl am wneud hynny yn ystod 2021/22 (gweler **Atodiad 7**).

6. Bydd **cyfyngiadau benthyca** (symiau ac aeddfedrwydd) ar gyfer pob gwrthbarti yn cael eu gosod drwy ddefnyddio'r tabl matrics fel y mae'n ymddangos yn y rhan o'r strategaeth hon sy'n ymwneud â Theilyngdod Credyd.

7. Nodir **cyfyngiadau trafodion** ar gyfer pob math o fuddsoddiad yn **Atodiad 8**.

8. Bydd yr Awdurdod hwn yn gosod cyfyngiad ar swm y buddsoddiadau y mae'n eu buddsoddi am **fwy na 365 diwrnod** (gweler **Atodiad 11**).

9. Ni fydd buddsoddiadau ond yn cael eu gwneud mewn gwrthbartion o wledydd sydd â graddfa sofraniaeth sylaenol (gweler **Atodiad 9**).

10. Mae'r Awdurdod hwn wedi penodi **ymgynghorwyr allanol** i ddarparu cyngor arbenigol ynghylch sut i sicrhau'r cydbwysedd priodol gorau rhwng diogelwch, hylifedd ac elw ac yn wyneb afrchwaeth risg yr Awdurdod hwn yng nghyd-destun lefel ddisgwyliedig y balansau ariannol a'r angen am hylifedd drwy'r flwyddyn.

11. Bydd yr holl fuddsoddiadau'n cael eu dynodi mewn **sterling.**

12. O ganlyniad i'r newid yn y safonau cyfrifo ar gyfer 2020/21 dan **IFRS 9,** bydd yr awdurdod hwn yn ystyried goblygiadau buddsoddi a allai arwain at newid andwyol yng ngwerth yr arian a fuddsoddir a'r taliadau i'r Gronfa Gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn o ganlyniad i hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo darpariaeth statudol sy'n rhoi amser i awdurdodau lleol Cymru addasu eu portffolios o'r holl fuddsoddiadau cyfun trwy ohirio gweithredu IFRS 9 am bum mlynedd tan 31.03.23.

### 7.3 Polisi Teilyngdod Credyd

**7.31**. Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau, er bod elw neu enillion ar fuddsoddiadau hefyd yn ystyriaeth allweddol. Wedi rhoi sylw i'r brif egwyddor hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo bolisi sy'n amlinellu'r categorïau o fuddsoddiadau y bydd yn buddsoddi ynddynt, y meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a chanddynt ddiogelwch digonol, a monitro eu diogelwch. Nodir hyn yn yr adrannau isod sy'n ymwneud â buddsoddiadau penodol ac amhenodol; a

- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud â'r uchafsymiau y gellir eu buddsoddi.

**7.3.2** Bydd y Swyddog Adran 151 yn cynnal rhestr gwrthbartïon yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn **Atodiad 8** a bydd yn adolygu'r meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo pan fo angen. Mae'r meini prawf hyn yn wahanol i'r rhai sy'n penderfynu pa fathau o offerynnau buddsoddi sy'n offerynnau penodol neu'n offerynnau amhenodol, a hynny oherwydd eu bod yn darparu cronfa gyffredinol o wrthbartïon yr ystyrir eu bod o safon uchel ac y gall y Cyngor eu defnyddio, yn hytrach na'u bod yn feini prawf sy'n diffinio'r math o offerynnau buddsoddi a fydd yn cael eu defnyddio.

**7.3.3** Caiff gwybodaeth am statws credyd ei darparu gan Link Group, ein hymgynghorwyr trysorlys, yn achos yr holl wrthbartïon sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf isod. Bydd unrhyw wrthbartïon sy'n methu â bodloni'r meini prawf yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr gwrthbartïon. Bydd manylion am newidiadau i'r graddfeydd, manylion am y duedd tymor hwy, newidiadau tebygol i'r graddfeydd (Watches), gwybodaeth ynghylch y duedd tymor hwy y tu allan i'r farn graddfa ganolog (Outlook) yn cael eu darparu i swyddogion bron ar unwaith wedi iddynt ddigwydd a rhoddir sylw i'r wybodaeth hon cyn delio. Er enghraifft, os ceir gwybodaeth y bydd graddfa negyddol yn berthnasol i wrthbarti sydd yn cwrdd â meini prawf sylfaenol y Cyngor, gwaherddir eu defnyddio a bydd y cyfan o'r lleill yn cael eu hadolygu yn wyneb amodau'r farchnad.

**7.3.4** Fel haen ddiogelwch ychwanegol i'r meini prawf staws credyd sylfaenol a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Link Asset Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithredu dull modelu soffistigedig gan ddeffnyddio graddfeydd credyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd - Fitch, Moody's a Standard and Poor's. Yn ychwanegol at hynny, cymerir y camau isod i asesu statws credyd gwrthbartïon:-

- Ystyrir rhagolygon credyd (Watches) a gweithgareddau monitro credyd (Outlook) gan asiantaethau statws credyd;
- Taenu yswirio colledion credyd (credit default swaps) i roi rhybudd buan am newidiadau tebygol mewn graddfeydd credyd;
- Graddfeydd sofran i ddewis gwrthbartïon o'r gwledydd sydd fwyaf teilwng o gael credyd yn unig.

**7.3.5** Mae'r dull modelu hwn yn cyfuno graddfeydd credyd, gweithgareddau monitro credyd (Watches) a rhagolygon credyd (Outlook) mewn system sgorio sydd wedi ei phwysoli ac sydd wedi ei chyfuno wedyn gyda throshaen o yswiriannau colledion credyd a fydd, yn y pen draw, yn cynhyrchu cyfres o godau lliw i nodi pa mor deilwng o gredyd yw gwrthbartïon. Mae'r codau lliw hyn yn cael eu defnyddio gan y Cyngor, gyda disgresiwn y Swyddog Adran 151, i gynorthwyo i benderfynu ar gyfnod amser y buddsoddiadau. Bydd y Cyngor, felly, fel arfer yn defnyddio gwrthbartïon o fewn y cyfnodau canlynol:-

| | |
|---|---|
| Melyn: | 5 mlynedd * |
| Pinc tywyll: | 5 mlynedd – ar gyfer bondiau tymor byr iawn gyda sgôr credyd o 1.25 |
| Pinc golau: | 5 mlynedd – ar gyfer bondiau tymor byr iawn gyda sgôr credyd o 1.5 |
| Piws: | 2 flynedd |
| Glas: | 1 flwyddyn (ond yn berthnasol i Fanciau DU a wladolwyd neu a led- wladolwyd) |
| Oren: | 1 flwyddyn |
| Coch: | 6 mis |
| Gwyrdd: | 100 diwrnod |
| Dim Lliw: | Dim i'w ddefnyddio |

**7.3.6** Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n dibynnu'n ormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

**7.3.7** Fel arfer, y meini prawf isaf y bydd y Cyngor yn eu defnyddio ar gyfer credyd fydd graddfa Tymor Byr (Fitch neu gyfatebol) o F1 a graddfa Tymor Hir o A-. Efallai y bydd achlysuron pan fydd graddfeydd un asiantaeth ychydig yn is na'r graddfeydd hyn, ond gellir parhau i'w defnyddio. Ar yr achlysuron hyn, rhoddir ystyriaeth i'r amrediad cyfan o raddfeydd sydd ar gael, neu wybodaeth berthnasol arall am y farchnad, er mwyn cefnogi eu defnyddio.

**7.3.8** Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Caiff y Cyngor wybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y tair asiantaeth oherwydd ei fod yn defnyddio gwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.

- Os bydd cwymp yn y raddfa'n golygu na fydd y gwrthbarti/cynllun buddsoddi'n cwrdd â meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni fyddant yn cael eu defnyddio eto ar gyfer buddsoddiadau newydd a bydd hynny'n dod i rym yn syth.
- Yn ogystal â graddfeydd credyd, bydd y Cyngor yn cael gwybodaeth yn ddyddiol am symudiadau yn nhaeniad y gweithgareddau 'yswirio colledion credyd' yn erbyn y meincnod iTraxx a data arall am y farchnad drwy ei wefan 'Passport', a ddarperir yn benodol ar ei ran gan Link Asset Services. Gall symudiadau eithafol yn y farchnad arwain at israddio sefydliad neu ei dynnu oddi ar restr benthycwyr y Cyngor.

**7.3.9** Ni fyddir yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y gwasanaeth allanol hwn. Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio data a gwybodaeth am y farchnad, yn ogystal â gwybodaeth am unrhyw gymorth allanol a roddwyd i fanciau i'w helpu gyda'i broses gwneud penderfyniadau.

**7.3.10** Er i'r asiantaethau statws credyd newid eu rhagolygon ar gyfer llawer o fanciau'r DU o Sefydlog i Negyddol yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ar 30.06.20 oherwydd y risgiau yn y dyfodol i enillion ac ansawdd asedau banciau yn ystod y dirywiad economaidd a achoswyd gan y pandemig, cadarnhawyd mwyafrif y cyfraddau oherwydd bod proffiliau credyd sefydliadau ariannol mawr yn parhau i fod yn gryf, gan gynnwys banciau'r DU. Fodd bynnag, yn ystod Ch1 a Ch2 2020, gwnaeth banciau ddarpariaethau ar gyfer colledion credyd yr oeddent yn eu disgwyl ac roedd y newidiadau yn y graddfeydd yn adlewyrchu'r darpariaethau hyn. Wrth i ni symud i chwarteri'r dyfodol, bydd mwy o wybodaeth yn dod i'r amlwg am y colledion credyd a gafwyd mewn gwirionedd. (Cyhoeddir adroddiadau chwarterol ar enillion fel arfer yn ail hanner y mis ar ôl diwedd y chwarter.) Gallai hyn beri i asiantaethau ailedrych ar eu haddasiadau cychwynnol i'r graddfeydd a wnaed yn gynharach yn y flwyddyn gyfredol. Gallai'r addasiadau hyn olygu bod y graddfeydd yn mynd i fyny neu i lawr, er y dylid cofio hefyd bod banciau wedi mynd i'r pandemig hwn gyda mantolenni cryf. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i newidiadau rheoliadol a orfodwyd ar fanciau yn dilyn yr Argyfwng Ariannol Mawr. Yn wir, yn adroddiad y Pwyllgor Polisi Ariannol (FPC) ar 6 Awst mae'r Pwyllgor hwnnw wedi adolygu'r colledion credyd disgwyliedig ar gyfer sector bancio'r DU ac wedi gostwng y ffigwr disgwyliedig i "ychydig yn llai na £80bn". Nododd, yn ei asesiad "banks have buffers of capital more than sufficient to absorb the losses that are likely to arise under the MPC's central projection". , Nododd y Pwyllgor, i'r sector fod dan straen go iawn, y byddai angen i'r allbwn economaidd fod ddwywaith yn waeth nag amcangyfrif y Pwyllgor Polisi Ariannol, gyda diweithdra'n codi i dros 15%.

**7.3.11** Mae'r tair asiantaeth graddfeydd wedi adolygu banciau ledled y byd ac wedi dod i ganlyniadau tebyg ar gyfer llawer o wledydd, sef bod y mwyafrif yn cael graddfa Rhagolwg Negyddol, ond dim ond nifer fach o israddiadau sydd wedi cael eu gwneud mewn gwirionedd.

**7.3.12** Er bod prisiau CDS banciau, (dangosyddion o risgiau credyd yn farchnad), wedi codi ddiwedd mis Mawrth / dechrau Ebrill 2020 oherwydd bod mwy o ansicrwydd yn y farchnad a'r argyfwng hylifedd a effeithiodd ar farchnadoedd ariannol, maent wedi dychwelyd i lefelau mwy arferol ers hynny. Serch hynny, mae prisiau'n dal i fod yn uchel o gymharu â rhai diwedd mis Chwefror 2020. Mae prisiau'n debygol o barhau i fod yn gyfnewidiol wrth i'r ansicrwydd barhau. Fodd bynnag, gall y sefyllfa newid yn sydyn, felly bydd yn parhau i fod yn bwysig i ni ddal ati i fonitro pob agwedd ar risg ac elw o dan yr amgylchiadau presennol. Mae Link yn monitro prisiau CDS fel rhan o'u gwasanaeth teilyngdod credyd i awdurdodau lleol ac mae gan y Cyngor fynediad i'r wybodaeth hon trwy ei borth 'Passport' a ddarperir gan Link.

### 7.4 Cyfyngiadau Gwleydydd

Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd ond yn defnyddio gwrthbartïon cymeradwy o wledydd gyda graddfa credyd sofran sydd o leiaf yn AA- yn ôl Graddfeydd Fitch (neu raddfa gyfatebol arall gan asiantaethau eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad hwn **yn Atodiad 9**. Bydd swyddogion yn ychwanegu gwledydd at y rhestr neu'n eu tynnu oddi arni pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn.

## 8. LLYWODRAETHIANT A RHEOLAETH

**8.1** Mae'r Côd Darbodus yn adlewyrchu symudiad tuag at hunanreoleiddio ar gyfer awdurdodau lleol ac mae llywodraethiant corfforaethol effeithiol yn un o elfennau allweddol gweithrediad llwyddiannus y Côd.

**8.2** Mae Llywodraethiant Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau isod:-

- Rôl ffurfiol ar gyfer y Swyddog Adran 151;
- Gosod a monitro Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys;
- Cynllun dirprwyo a phroses gymeradwyo ffurfiol;
- Adrodd ar faterion Rheoli Trysorlys i Aelodau.

### 8.3 Rôl y Swyddog Adran 151 a'r Aelodau

**8.3.1** Y Swyddog Adran 151 sy'n gyfrifol am sicrhau bod materion sy'n ymwneud â Rheoli Trysorlys a Chyllido Cyfalaf yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadrodd i'r Pwyllgor Gwaith / Cyngor llawn i'w hystyried a bod gweithdrefnau'n cael eu sefydlu i fonitro perfformiad.

**8.3.2** Rhaid i'r Swyddog Adran 151 sicrhau bod dangosyddion darbodus yn cael eu gosod a'u monitro er mwyn dangos y cydymffurfir â'r gofyn deddfwriaethol i sicrhau bod cynlluniau'r Cyngor yn fforddiadwy.

**8.3.3.** Mae Aelodau hefyd yn chwarae rôl bwysig, nid yn unig o ran awdurdodi'r penderfyniadau perthnasol ond hefyd wrth graffu ar brosesau, penderfyniadau a pherfformiad sy'n gysylltiedig â rheoli'r trysorlys. Er mwyn ymgymryd â'r rôl hon, rhaid i'r swyddog cyfrifol, yn unol â Chôd CIPFA, sicrhau bod Aelodau sydd â chyfrifoldeb am faterion reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol ar y cyfryw faterion. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgriwtini. Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, cafodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar faterion rheoli trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli trysorlys ar 7 Tachwedd 2019. Trefnir hyfforddiant pellach yn ôl yr angen. Mae anghenion hyfforddiant swyddogion rheoli trysorlys yn cael sylw ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**8.3.4** Mae'r Mae'r Cynllun Dirprwyo ar gyfer Rheoli Trysorlys ac eglurhad llawnach o rôl y Swyddog Adran 151 ar gael yn **Atodiad 10**.

## 8.4 Cyngor Rheoli Trysorlys

**8.4.1** Mae'r Cyngor yn defnyddio Link Asset Services fel ei ymgynghorwyr allanol ar gyfer materion rheoli trysorlys. Hysbysebwyd tendr ar gyfer y gwasanaeth ymgynghorol Rheoli Trysorlys am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019 gydag opsiwn i ymestyn am 2 flynedd, a Link Asset Services (Capita Asset Services gynt) a gyflwynodd y tendr llwyddiannus. Penderfynodd y Cyngor wneud defnydd o'r opsiwn i ymestyn y contract am ddwy flynedd. Yn unol â rheoliadau caffael, bydd y Cyngor yn ailwahodd tendrau i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn gynnar yn 2021 am y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2026 gydag opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd.

**8.4.2** Mae'r Cyngor yn cydnabod fod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli trysorlys yn aros gyda'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau na fydd yn dibynnu'n afresymol ar ein darparwyr gwasanaeth allanol. Bydd yr holl benderfyniadau'n cael eu gwneud gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth gan ein hymgynghorwyr trysorlys, ond ni ddibynnir arnyn nhw'n unig. Y Cyngor sy'n parhau i fod hefo'r cyfrifoldeb terfynol am unrhyw benderfyniadau rheoli trysorlys.

**8.4.3** Mae hefyd yn cydnabod gwerth cyflogi cwmnïau allanol i ddarparu gwasanaethau rheoli trysorlys er mwyn medru manteisio ar sgiliau ac adnoddau arbenigol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau o asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd.

## 8.5 Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys

**8.5.1** Mae'r Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys a nodir yn **Atodiad 11** yn ymwneud â fforddiadwyedd a darbodusrwydd ac yn gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyled allanol a strwythur dyledion. Mater i'r Cyngor yw gosod Dangosyddion Darbodus ac mae'n bwysig ystyried y dangosyddion ar gyfer pob blwyddyn unigol ar wahân ond hefyd i ystyried perfformiad yn y gorffennol a rhagolygon i'r dyfodol. Ceir eglurhad llawnach o bwrpas pob dangosydd yn **Atodiad 12.**

## 8.6 Adrodd

**8.6.1** Mae angen i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri phrif adroddiad bob blwyddyn, sy'n cynnwys amrywiaeth o bolisïau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Mae angen i'r adroddiadau hyn gael sylw digonol gan bwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethant sy'n gyfrifol am y rôl hon.

**8.6.2 Dangosyddion Rheoli Darbodus a'r Trysorlys a Strategaeth y Trysorlys** adroddiad cyntaf a'r pwysicaf (sef yr adroddiad hwn) yn ymwneud â'r isod:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (y modd y bydd buddsoddiadau a benthyciadau'n cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion rheoli trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (y cyfyngiadau o ran rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (y modd y mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei roi yn erbyn refeniw dros gyfnod o amser);
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o bolisïau ac amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys); a
- cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

**8.6.3** **Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn** – bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, yn diwygio dangosyddion darbodus fel y bydd angen ac yn nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i hamcanion ynteu oes angen adolygu unrhyw bolisïau.

**8.6.4** **Adroddiad Blynyddol ar Reoli Trysorlys** – dogfen adolygu sy'n edrych yn ôl ac yn darparu manylion am ddetholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a'r gweithgareddau trysorlys gwirioneddol o'u cymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

**ATODIADAU**

**1** Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys
**2** Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys
**3** Cefndir economaidd
**4** Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog
**5** Proffil aeddfedrwydd benthyciadau
**6** Datganiad Polisi DRI
**7** Buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol
**8** Meini Prawf Gwrthbartïon
**9** Gwledydd sy’n cael eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau
**10** Cynllun dirprwyo rheoli trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151.
**11** Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys
**12** Eglurhad ar y Dangosyddion Darbodus
**13** Geirfa a gwybodaeth ynghylch dangosyddion Darbodus a Thrysorlys

**Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys**

**1** Mae CIPFA yn diffinio ei weithgareddau rheoli'r trysorlys fel : "Rheoli buddsoddiadau a llif arian yr Awdurdod, ei fancio, trafodion marchnadoedd arian a marchnadoedd cyfalaf: rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny, a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny".

**2** Mae'r sefydliad hwn o'r farn mai nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithlonrwydd gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn unol â hynny, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheoli trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r sefydliad, ac unrhyw offerynnau ariannol a wnaed i reoli'r risgiau hyn.

**3** Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y bydd rheolaeth effeithiol o'r trysorlys yn cynorthwyo i gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Mae felly wedi ymrwymo i egwyddorion ennill gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys, a defnyddio technegau mesur perfformiad cynhwysfawr ac addas, o fewn cyd-destun rheoli risg mewn modd effeithiol.

**ATODIAD 2**

**Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Egwyddorion allweddol CIPFA ***Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2011),*** fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

**Egwyddor Allweddol 1:**
Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys mewn modd effeithiol.

**Egwyddor Allweddol 2:**
Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu harchwaeth risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarbodus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd wrth fuddsoddi arian.

**Egwyddor Allweddol 3:**
Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisïau a'u harferion rheoli trysorlys adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:

**(ii)** Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd nad yw graddfa sofran isaf yn AA- neu'n uwch. Ni fydd cyfyngiad gwlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y Deyrnas Gyfunol waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.

**(iii)** Bydd is-gwmnïau o grwpiau banciau tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y rhiant-sefydliad. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Banco Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y Deyrnas Gyfunol oherwydd ei fasnachfreintiau sylweddol yn y Deyrnas Gyfunol a natur hyd braich y berthynas rhwng y rhiant gwmni a'r is-gwmni.

**(iv)** Ni fydd meini prawf graddfa credyd sofran a chyfyngiadau gwledydd tramor yn berthnasol i fuddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog (e.e. Banc Buddsoddi Ewrop a Banc y Byd) na sefydliadau rhyngwladol eraill (e.e. yr Undeb Ewropeaidd).

**4. Graddfa Credyd yn Gostwng**

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw, gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol cyn gynted ag y gellir.

**ATODIAD 9**

**Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 5 Ionawr 2021]**

*Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar y gwledydd hynny sydd â graddfa sofran o AA- neu uwch (rydym yn dangos y raddfa isaf gan Fitch, Moody's a S&P) a hefyd, (ac eithrio - ar adeg ysgrifennu - ar gyfer Hong Kong, Norwy a Lwcsembwrg) a chanddynt fanciau sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sterling sydd â statws credyd gwyrdd neu uwch yng ngwasanaeth teilyngdod credyd Link Asset Services.*

***Yn seiliedig ar y raddfa isaf sydd ar gael***

**AAA**

- Awstralia
- Denmarc
- Yr Almaen
- Lwcsembwrg
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

**AA+**

- Canada
- Y Ffindir
- U.D.A

**AA**

- Abu Dhabi
- Ffrainc

**AA-**

- Gwlad Belg
- Hong Kong
- Qatar
- **DU**

**ATODIAD 10.**

**Cynllun Dirprwyo ar gyfer materion Rheoli Trysorlys**

**(i) Cyngor Sir**

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi DIR, Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau iddynt;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys; a
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

**(ii) Pwyllgor Gwaith**

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu'r cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar delerau'r apwyntiad;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisïau arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel sy'n briodol;
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio.

**(iii) Pwyllgor Archwilio**

- Craffu ar faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:-
  - Craffu ar y Datganiad ar y Strategaeth Flynyddol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi DIR Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  - Craffu ar gynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi DIR Blynyddol, y Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys ac i'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol;
  - derbyn a chraffu ar unrhyw gynigion sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir;
  - derbyn a chraffu ar adroddiadau monitro ar bolisïau, arferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel y bo'n briodol.

**Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151**

**Mae rôl y Swyddog Adran 151 (y swyddog cyfrifol) yn cynnwys:**

- argymell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi rheoli trysorlys
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau i'r gyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd y gwaith archwilio mewnol, a chydgysylltu ag archwilwyr allanol; ac
- argymell penodi darparwyr gwasanaeth allanol

- cyfrifoldeb am weithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthyca, buddsoddi ac ariannu, a fônt wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys.
- paratoi strategaeth gyfalaf i gynnwys gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf, buddsoddiadau anariannol a rheoli trysorlys o fewn llinell amser tymor hir.
- sicrhau bod y strategaeth gyfalaf yn ddarbodus, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn y tymor hir a'i bod yn darparu gwerth am arian.

**7.** sicrhau diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r holl fuddsoddiadau trysorlys ac anariannol a'u bod yn unol ag archwaeth risg yr awdurdod.

**8.** sicrhau bod gan yr awdurdod y pwerau cyfreithiol priodol i wario ar asedau anariannol a'u cyllido.

**9.** sicrhau cymesuredd yr holl fuddsoddiadau fel nad yw'r awdurdod yn buddsoddi ar lefel sy'n golygu bod yr awdurdod yn agored i lefel ormodol o risg o gymharu â'i adnoddau ariannol.

**10.** sicrhau bod proses lywodraethu ddigonol yn ei lle ar gyfer cymeradwyo, monitro a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiadau anariannol a rhwymedigaethau tymor hir.

**11.** rhoi i aelodau restr o'r holl fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys, gan gynnwys buddsoddiadau sylweddol mewn is-gwmnïau, mentrau ar y cyd, benthyciadau a gwarantau ariannol.

**12.** sicrhau bod aelodau'n cael gwybodaeth ddigonol a'u bod yn deall y risgiau y mae'r awdurdod yn agored iddynt.

**13.** sicrhau bod gan yr awdurdod yr arbenigedd ddigonol, naill ai'n fewnol neu'n allanol, i wneud yr uchod.

***14.*** creu Arferion Rheoli Trysorlys sy'n delio'n benodol â'r modd y bydd buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trin a'u rheoli, gan gynnwys yr isod:-

- Rheoli risg (ARhT1 a'r atodlenni), gan gynnwys meini prawf buddsoddi a rheoli risg ar gyfer unrhyw bortffolios buddsoddi sylweddol nad ydynt yn ymwneud â'r trysorlys;

- Mesur a rheoli perfformiad (ARhT2 a'r atodlenni) , gan gynnwys methodoleg a meini prawf ar gyfer asesu perfformiad a llwyddiant buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys;

- Gwneud penderfyniadau, llywodraethu a threfniadaeth (ARhT5 a'r atodlenni), gan gynnwys datganiad ar ofynion llywodraethiant ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys; a threfniadau i sicrhau diwydrwydd dyladwy er mwyn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau;

- Gwybodaeth reoli ac adrodd (ARhT6 a'r atodlenni), gan gynnwys ble a pha mor aml y cynhyrchir adroddiadau monitro;

- Hyfforddiant a chymwysterau (ARhT10 a'r atodlenni), gan gynnwys y modd y bydd gwybodaeth a sgiliau perthnasol mewn perthynas â buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys yn cael eu trefnu.

**DANGOSYDDION DARBODUS A THRYSORLYS** **ATODIAD 11**
**GOSOD CYLLIDEB 2021/22**

| Rhif | Dangosydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fforddiadwyaeth** | **2019/20 Alldro** | **2020/21 Amcangyfrif** | **2021/22 Cynnig** | **20222/23C ynnig** | **2023/24 Cynnig** |
| **1,2** | Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd refeniw net: | | | | | |
| | Cronfa’r Cyngor | 4.96% | 4.82% | 4.95% | 4.89% | 4.91% |
| | Cyfrif Refeniw Tai (gan gynnwys y setliad) | 19.01% | 16.34% | 9.63% | 13.17% | 13.91% |
| | Cyfanswm | 6.62% | 6.18% | 5.51% | 5.91% | 6.04% |
| **Darbodusrwydd** | | | | | | |
| **3** | Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | *Ydy dyled allanol gros yn llai na'r GCC am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?* | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gwariant Cyfalaf** | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **4,5** | Amcangyfrif o [neu wir] Wariant Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 18,203 | 26,806 | 15,842 | 16,380 | 17,221 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 11,812 | 12,788 | 20,313 | 18,816 | 22,670 |
| | Cyfanswm | 30,015 | 39,594 | 36,155 | 35,196 | 39,891 |
| **6,7** | Amcangyfrif o [neu wir] Gofyniad Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| | Cronfa'r Cyngor | 96,906 | 105,955 | 107,932 | 114,005 | 119,621 |
| | Cyfrif Refeniw Tai | 39,998 | 39,199 | 40,415 | 45,606 | 54,194 |
| | Cyfanswm | 136,904 | 145,154 | 148,347 | 159,611 | 173,815 |
| Dyled Allanol | | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **8** | Terfyn Awdurdodedig | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 175,000 | 175,000 | 178,000 | 190,000 | 204,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 3,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| | : Cyfanswm | 178,000 | 180,000 | 183,000 | 195,000 | 209,000 |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **9** | Ffin Weithredol | | | | | |
| | : Benthyca Cyffredinol | 170,000 | 170,000 | 173,000 | 185,000 | 199,000 |
| | : Ymrwymiadau tymor hir eraill | 3,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| | : Cyfanswm | 173,000 | 175,000 | 178,000 | 190,000 | 204,000 |
| **10** | Gwir Ddyled Allanol | 139,232 | | | | |
| **Rheoli'r Trysorlys** | | **20/19/20 Alldro** | **2020/21 Amcangyfrif** | **2021/22 Cynnig** | **2022/23 Cynnig** | **2022/23 Cynnig** |
| **11** | Bod yr Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **12** | Dyled Gros a Net | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% |
| | *Terfyn uchaf ar y ddyled net fel cyfran o'r ddyled gros* | | | | | |
| **13** | Y terfyn uchaf ar raddfeydd sefydlog : | 155,000 | 155,000 | 158,000 | 170,000 | 184,000 |
| | *(prifswm net sy'n ddyledus)* | | | | | |
| **14** | Y terfyn uchaf ar raddfeydd amrywiol: | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 | 20,000 |
| | *(prifswm net sy'n ddyledusl)* | | | | | |
| **15** | Terfyn cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am gyfnodau dros 364 diwrnod: | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |
| | *(bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn nherfyn pob blwyddyn)* | | | | | |
| | | | **2021/22 Terfyn uchaf** | | **2021/22 Terfyn isaf** | |
| **16** | Terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu'r benthyca graddfa sefydlog | | | | | |
| | • dan 12 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 12 mis ac o fewn 24 mis | | 20% | | 0% | |
| | • 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | | 50% | | 0% | |
| | • 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 75% | | 0% | |
| | • 10 mlynedd a throsodd | | 100% | | 0% | |
| | | | Dim newid | | Dim newid | |

**ATODIAD 12**

**Gwybodaeth am Ddangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys.**

## A) Fforddiadwyaeth.

### 1 & 2. Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd refeniw net

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyllido yn cynnwys ymrwymiadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

## B) Bod yn ddarbodus

### 3. Dyled gros a'r GCC

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2021/22 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Mae hyn yn rhoi peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau na fyddir yn benthyca i ddibenion refeniw.

## C) Gwariant cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw'r gyrwyr allweddol o ran gweithgareddau rheoli trysorlys. Adlewyrchir allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf yn y dangosyddion darbodus, sydd wedi'u dylunio i gynorthwyo aelodau i gael trosolwg o'r sefyllfa gyfalaf a chadarnhau cynlluniau gwariant cyfalaf.

### 4 & 5 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenir o 2020/21 hyd at 2023/24 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 a'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2021/22.

### 6 & 7 Anghenion benthyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi talu amdano ar unwaith, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw (DIR) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthyca yn unol ag oes pob ased ac felly'n newid dâl ar y defnydd economaidd o asedau cyfalaf wrth iddynt gael eu defnyddio.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca, mae'r mathau hyn o gynlluniau'n cynnwys cyfleuster benthyca ac o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthyca ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau o'r fath yn y GCC.

**CH) Dyled Allanol**

8. **Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol**. Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn rheoli'r uchafswm benthyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu hwnt i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3(1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o gynlluniau'r holl Gynhorau, neu gynlluniau Cyngor penodol, er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

   Dywed y Swyddog Adran 151 bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

9. **Y ffin weithredol**. Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthyca trwy ddefnyddio adnoddau arian parod eraill

**Geirfa**

**GWARIANT CYFALAF**
Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased presennol nad yw'n gyfredol, yn hytrach na dim ond cynnal gwerth yr ased. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, gwaith adnewyddu sylweddol ar gartref gofal.

**CYLLIDO CYFALAF**
Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf, gan gynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf y mae modd eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF**
Y cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sydd heb ei dalu'n barod naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n adlewyrchiad o angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca.

**RHAGLEN GYFALAF**
Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu dros gyfnod penodol o amser.

**DERBYNIADAU CYFALAF**
Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol. Gellir defnyddio cyfran o'r dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

**CIPFA**
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**
Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n gysyltiedig â'r Cyngor yn darparu llety tai.

**LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**
Defnyddir y dull cyfradd llog wirioneddol i fesur beth yw gwerth ased ariannol neu rwymedigaeth a fesurir yn ôl y gost llai amorteiddiad cronedig, ac i neilltuo incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd llog wirioneddol yw honno sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau yr amcangyfrifir y'u derbynnir yn y dyfodol dros oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd llog wirioneddol yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor. Yn achos asedau a rhywymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog wirioneddol yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

**DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW (DIR)**
Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

**DYLED NET**
Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (BBGC)**
Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca arnynt ei hun.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**
Gwariant y gellir ei ohirio'n briodol (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran ei natur) ond nad yw'n arwain at ased diriaethol, na'n parhau i fod yn gysylltiedig â hi. Mae enghreifftiau o daliadau gohiriedig yn cynnwys grantiau o natur gyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GRANT CYNNAL REFENIW**
Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau ac sy'n cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**BENTHYCA GYDA CHYMORTH**
Mae'r Cyngor yn benthyca arian i ariannu rhan o'i raglen gyfalaf. Cydnabyddir y benthyciad gan Lywodraeth Ganolog wrth weithio allan ei fformiwla gyllido ar gyfer y Cyngor.

**BENTHYCA DROS DRO**
Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BENTHYCA DIGYMORTH**
Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca a gefnogir gan y Llywodraeth, a hynny er mwyn ariannu ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer hwn gan Gôd Darbodus CIPFA, sef Côd y mae'r Cyngor yn llwyr gydymffurfio ag ef.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **Dyddiad:** | 9 Chwefror 2021 |
| **Pwnc:** | Siartr Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog Adran 151<br>01248 752601<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>01248 752611<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio gynhyrchu Siartr Archwilio Mewnol, y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ei gymeradwyo. Nid yw adolygiad er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn briodol parhaus wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol. | |

## Cyflwyniad

1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn darparu ar gyfer adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r siartr yn derfynol.

2. Cafodd y siartr ei hadolygu ddiwethaf, a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Medi 2018. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cynnal adolygiad er mwyn ei bod yn parhau i fod yn briodol ac nad yw wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Siartr Archwilio Mewnol.



# SIARTR ARCHWILIO MEWNOL

## IONAWR 2021


**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA, Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@YnysMon.gov.uk

01248 752611


CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# TABL CYNNWYS

RHAGARWEINIAD ____ 3
PWRPAS ARCHWILIO MEWNOL ____ 4
AWDURDOD ARCHWILIO MEWNOL ____ 5
Hawliau Mynediad y swyddogaeth archwilio mewnol ____ 5
Sgôp Gwaith Archwilio Mewnol ____ 6
Annibyniaeth ____ 6
CYFRIFOLDEBAU ARCHWILIO MEWNOL ____ 7
ADRODD ____ 8
Strategaeth Archwilio Mewnol ____ 8
Adrodd ar Aseiniadau ____ 8
Graddfa Sicrwydd ____ 9
BETH YW RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN GWAITH SY'N YMWNEUD Â THWYLL ____ 10
ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL ____ 11
Archwilio Mewnol (Medi 2019) ____ 11
MESURAU DIOGELU I GYFYNGU AR UNRHYW AMHARIAD AR ANNIGYNIAETH NEU WRTHRYCHEDD ____ 12

# RHAGARWEINIAD

1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus[1] (PSIAS) yn diffinio natur ac yn gosod yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.

2. Mae'r Safonau yn nodi'r angen i'r prif swyddog archwilio ddiffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol mewn siartr archwilio mewnol. Mae hefyd angen i brif swyddogion Archwilio adrodd ar gydymffurfiaeth â'r PSIAS yn eu hadroddiad blynyddol. Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Siartr Archwilio Mewnol yn derfynol.

3. Mae'r siartr archwilio mewnol yn sefydlu:

- pwrpas archwilio mewnol a'i statws o fewn y Cyngor
- awdurdod archwilio mewnol i gael mynediad i gofnodion, personél a phriodweddau ffisegol sy'n berthnasol i berfformiad ei waith
- cyfrifoldebau archwilio mewnol
- llinellau adrodd a natur perthynas y prif swyddog archwilio â'r uwch reolwyr a'r bwrdd
- cwmpas y gwaith archwilio mewnol, yn cynnwys natur ei rôl sicrwydd a gwasanaethau ymgynghori
- rôl archwilio mewnol mewn gwaith yn ymwneud â thwyll
- trefniadau ar gyfer sicrhau adnoddau ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol
- y mesurau diogelwch ar gyfer cyfyngu ar amhariadau ar annibyniaeth neu wrthrychedd

4. Mae'r PSIAS yn defnyddio termau generig, sydd yn achos Cyngor Sir Ynys Môn, fel a ganlyn:

| Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus | Cyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|
| Prif Swyddog Archwilio | Pennaeth Archwilio a Risg |
| Uwch Reolwyr | Uwch Dîm Arweinyddiaeth |
| Y Bwrdd | Pwyllgor Gwaith |

[1] Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus, Cyhoeddwyd gan y sawl sy'n gosod y Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol, Mawrth 2017

# PWRPAS ARCHWILIO MEWNOL

5. Gwasanaeth archwilio mewn proffesiynol, annibynnol a gwrthrychol yw un o elfennau allweddol llywodraethiant da, fel y cydnabyddir ar hyd a lled y sector cyhoeddus yn y DU.

6. Y ddarpariaeth o wasanaethau sicrwydd yw prif rôl archwilio mewnol. Drwy ein barn archwilio mewnol flynyddol ac adroddiadau eraill, rydym yn rhoi sicrwydd i aelodau etholedig a rheolwyr ac yn tynnu sylw at feysydd y mae angen eu gwella.

7. Mae’r PSIAS yn diffinio archwilio mewnol fel:

> ***Mae archwilio mewnol yn weithgaredd annibynnol, sicrwydd gwrthrychol ac ymgynghorol sydd wedi ei gynllunio er mwyn ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae’n helpu sefydliad i gyflawni eu hamcanion drwy sefydlu agwedd systematig a disgybledig er mwyn gwerthuso a gwella effeithlonrwydd rheolaeth risg, rheolaeth a phrosesau llywodraethu***

8. Mae ein rôl yn unigryw; mae’n darparu her effeithiol ac yn gweithio fel catalydd ar gyfer newidiadau cadarnhaol a gwelliant parhaus o ran llywodraethiant yn ei holl agweddau. Mae ein rôl yn hynod o bwysig wrth i’r Cyngor wynebu cyfnodau ansicr a heriol.

9. Er mwyn sicrhau’r budd gorau posibl i’r sefydliad, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â’r tîm rheoli i gynorthwyo’r sefydliad i gyflawni ei amcanion.

10. Ein prif amcanion yw:

    - Darparu sicrwydd a chyngor annibynnol i reolwyr ac aelodau lleyg ac etholedig ar reolaeth risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol

    - Datblygu a hyrwyddo ein rôl er mwyn gwneud cyfraniad sylweddol i flaenoriaeth y Cyngor i foderneiddio a darparu effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

    - Ychwanegu gwerth ym mhob maes o’n gwaith, rhoi gwasanaeth rhagorol i’n cwsmeriaid.

# AWDURDOD ARCHWILIO MEWNOL

11. Mae archwilio mewnol yn ofyniad statudol ar gyfer awdurdodau lleol ac mae'n cael ei awdurdod a'i rwymedigaethau o ddau ddarn o ddeddfwriaeth:

12. Mae Rhan 3, Rheoliad 7 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014[2] yn dweud bod "rhaid i awdurdod perthnasol ymgymryd ag archwiliad mewnol effeithiol er mwyn gwerthuso effeithlonrwydd ei brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethiant, gan ystyried safonau neu arweiniad archwilio'r sector cyhoeddus".

13. Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi bod angen i bob awdurdod wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol a sicrhau bod gan un o'r swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Mae CIPFA wedi diffinio 'gweinyddiaeth briodol' fel rhywbeth ddylai gynnwys 'cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol ar gyfer cyfrifo ac archwilio mewnol'.

14. Hefyd, mae datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol yn dweud bod rhaid i'r Prif Swyddog Ariannol (PSA):

    - sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol a bod y swyddogaeth yn cael ei chynnal
    - sicrhau bod yr awdurdod wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol yr amgylchedd rheoli
    - gefnogi trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod
    - sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn y cyngor a'r wybodaeth angenrheidiol fel y gall y ddwy swyddogaeth weithredu'n effeithiol.

15. Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn darparu ar gyfer cynnal swyddogaeth archwilio fewnol barhaus dan oruchwyliaeth annibynnol, wedi'i goruchwylio gan Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r Cyngor ac yn amodol ar safonau archwilio proffesiynol (4.8.5.3.1).

## Hawliau Mynediad y swyddogaeth archwilio mewnol

16. Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor (4.8.5.3.2) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer hawliau mynediad i'r swyddogaeth archwilio mewnol ac yn rhoi i'r gwasanaeth yr awdurdod i:

    - gael mynediad ar unrhyw amser rhesymol i eiddo, tir neu safleoedd contract y Cyngor;
    - cael mynediad i'r holl gofnodion, dogfennau neu ohebiaeth yn ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill y Cyngor;
    - gofyn am, a derbyn, unrhyw esboniadau sy'n angenrheidiol gan weithwyr y Cyngor yn ôl yr angen;
    - gofyn i weithwyr y Cyngor ddangos arian parod, eitemau mewn storfeydd neu unrhyw eiddo arall sydd o dan reolaeth y Cyngor er mwyn iddynt ei archwilio.

[2] Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018 yn diwygio Rheoliadau 2014 ond nid yw'n cael effaith ar y gofyniad hwn.

## Sgôp Gwaith Archwilio Mewnol

17. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn rhagweithiol ac yn arloesol sydd bob amser yn anelu at wneud yn well. Mae gennym agwedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer wrth gynllunio archwiliadau, sgopio prosiectau a darparu gwasanaethau ac sy'n cynnwys aelodau etholedig, uwch reolwyr a staff gweithredol.

18. Mae ein strategaeth yn cymryd i ystyriaeth y gofrestr risg gorfforaethol ac unrhyw sicrwydd arall y gall y Cyngor ei dderbyn yn fewnol neu'n allanol, i atal dyblygu gwaith a chydlynu gwaith rheoleiddio. Mae hefyd yn ystyried trafodaethau ag uwch reolwyr.

19. Mae ein gwaith yn darparu agwedd sy'n seiliedig ar risg sy'n caniatáu i'r Pennaeth Archwilio a Risg ffurfio a rhoi tystiolaeth o'i barn ar yr amgylchedd rheoli er mwyn cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

20. Efallai y bydd Archwilio Mewnol yn darparu arweiniad a chyngor ar adegau e.e. ar systemau newydd neu efallai y rhoddir cymorth i ddatblygu prosesau newydd gan ddefnyddio ein sgiliau arbenigol. Efallai y bydd gwasanaethau yn gofyn i ni ar adegau gyflawni prosiectau penodol ar sail ymgynghori. Ar yr adegau hyn, byddwn yn ei gwneud hi'n glir o'r dechrau ein bod yn gweithio ar sail ymgynghorol yn hytrach nag archwilio mewnol ac nad ydym yn rhoi sicrwydd archwilio ar yr achlysuron hyn.

## Annibyniaeth

21. Mae'r PSIAS yn nodi bod yn rhaid i'r prif swyddog archwilio, adrodd i lefel o fewn y sefydliad sy'n galluogi'r gweithgaredd archwilio mewnol i gyflawni ei gyfrifoldebau; adrodd i'r bwrdd neu'r corff cyfatebol yw'r dull o helpu a dderbynnir fel arfer er mwyn sicrhau bod annibyniaeth sefydliadol yn cael ei gyflawni.

22. Mae gan y Pennaeth Archwilio a Risg fynediad uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac mae'n rhydd i adrodd yn uniongyrchol i unrhyw aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth neu'r pennaeth gwasanaeth.

23. Er yn ymarferol yn adrodd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, mae gan y Pennaeth Archwilio a Risg fynediad uniongyrchol i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, ac mae darpariaeth ar gyfer hynny yn Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor (4.8.5.3.5).

24. Mae'r llinellau adrodd estynedig hyn yn rhoi i'r swyddogaeth archwilio mewnol annibyniaeth ddigonol o ran y gweithgareddau y bydd yn eu hadolygu er mwyn galluogi ei archwilwyr i gyflawni eu dyletswyddau yn wrthrychol ac i ddod i farn ddiduedd ac effeithiol ac i godi materion ar gyfer gwella.

25. Bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn gwerthuso perfformiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn flynyddol a cheir adborth gan y Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Mae hyn yn sicrhau nad yw sefyllfa'r Pennaeth Archwilio a Risg o ran rheolaeth llinell yn y Cyngor yn cael ei chyfyngu na'i heffeithio.

# CYFRIFOLDEBAU ARCHWILIO MEWNOL

26. Wrth gynnal gweithgaredd archwilio mewnol parhaus, mae'r prif swyddog archwilio yn ystyried elfennau gorfodol y PSIAS:

- Egwyddorion Craidd yr Ymarfer Proffesiynol o Archwilio Mewnol
- Cod Moeseg
- Safonau
- Diffiniad o Archwilio Mewnol

27. Mae angen i holl aelodau'r gwasanaeth archwilio mewnol gydymffurfio â'r PSIAS, yn cynnwys ei God Moeseg. Yn ychwanegol at hynny, bydd yr holl archwilwyr yn arwyddo datganiad bob blwyddyn yn nodi y byddant yn parchu cyfrinachedd y wybodaeth y ceir mynediad iddi wrth wneud y gwaith, yn datgan unrhyw ddiddordeb sydd ganddynt mewn unrhyw wasanaethau y maent yn eu hadolygu a'u bod wedi darllen y PSIAS, y Cod Moeseg a Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Swyddogion.

28. Rhaid i'r holl archwilwyr mewnol:

- weithio gydag eraill er mwyn hyrwyddo a dangos budd llywodraethiant da drwy gydol y Cyngor
- hyrwyddo'r lefel uchaf bosibl o safonau a moeseg ar draws y Cyngor yn seiliedig ar unplygrwydd, gwrthrychedd, cymhwysedd a chyfrinachedd
- mynegi barn gadarn wrth adnabod gwendidau yn amgylchedd rheoli'r Cyngor a darparu barn gytbwys o ran ba mor sylweddol yw'r rhain
- ymrwymo i welliant parhaus
- arddangos unplygrwydd
- adrodd ar yr hyn sy'n cael ei ddarganfod yn ddiduedd a heb unrhyw ofn
- rhoi cyngor clir, proffesiynol a gwrthrychol
- dod â chymhwyster priodol a rhaglen weithredol ar gyfer datblygiad proffesiynol personol

29. Yn ychwanegol ar hyn, rhaid i'r Pennaeth Archwilio a Risg:

- fod yn uwch reolwr sy'n ymgysylltu'n rheolaidd ac agored ar draws y Cyngor, yn enwedig gyda'r uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- fod â chymwysterau addas ac yn brofiadol
- rhoi sicrwydd ar yr amgylchedd rheoli, yn cynnwys rheoli risg a gwybodaeth a rheoliadau mewnol ar draws y Cyngor
- cynhyrchu barn archwilio mewnol flynyddol yn seiliedig ar dystiolaeth ar amgylchedd rheoli'r Cyngor sy'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn crynhoi'r prif ganlyniadau a chasgliadau gan dynnu sylw at unrhyw bryderon penodol
- ymgysylltu'n agos â rheoleiddwyr allanol y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth a defnyddio adnoddau archwilio yn y ffordd fwyaf effeithiol
- penderfynu ar yr adnoddau, arbenigeddau, cymwysterau a systemau sydd eu hangen ar y gwasanaeth archwilio mewnol er mwyn gallu bodloni ei amcanion a darparu barn archwilio mewnol

30. Mae'r prif swyddog archwilio hefyd yn cymryd i ystyriaeth Ddatganiad CIPFA ar Bennaeth Archwilio Mewnol (2019), sy'n nodi cyfrifoldebau'r unigolyn a'r sefydliad ac sy'n darparu canllawiau ynghylch arfer orau er mwyn cefnogi effeithiolrwydd archwilio mewnol.

# ADRODD

## Strategaeth Archwilio Mewnol

31. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn paratoi'r strategaeth archwilio mewnol mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 15 a'r uwch reolwyr.

32. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno hyn yn flynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethau ar gyfer eu cymeradwyo. Darperir adolygiadau yn ystod y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel rhan o'r adroddiad diweddaru a gyflwynir i bob cyfarfod.

## Barn Flynyddol

33. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi barn i'r Cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r Cyngor i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

34. Wrth roi'r farn, dylid nodi na all sicrwydd byth fod yn absoliwt; y mwyaf y gellir ei ddarparu yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr mewn prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi'r farn flynyddol yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ôl diwedd y flwyddyn.

## Adrodd ar Aseiniadau

35. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ymrwymo'n llawn i bolisi Iaith Gymraeg y Cyngor. Adroddir yn ddwyieithog ble bynnag y mae hynny'n bosibl ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys nifer o staff dwyieithog sy'n gallu ymgymryd ag adolygiadau yn newis iaith y rhai hynny sy'n cynorthwyo â'r adolygiadau.

36. Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar yr holl adolygiadau archwilio. Cynhelir cyfarfodydd adrodd yn ôl gyda'r rheolwyr sy'n gyfrifol am y maes sy'n destun adolygiad er mwyn cytuno ar gywirdeb ffeithiol y materion a'r risgiau a godwyd.

37. Yn dilyn cytundeb, cyflwynir adroddiadau drafft i'r rheolwr perthnasol sy'n cofnodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd er mwyn delio â'r materion / risgiau a godwyd ynghyd â'r swyddogion sydd wedi cael y cyfrifoldeb o weithredu'r rhain, ynghyd â'r amserlen ar gyfer eu gweithredu. Unwaith y bydd y cynllun gweithredu wedi ei gwblhau yn llawn a'i gytuno arno gyda'r archwilydd, cyhoeddir adroddiad terfynol.

38. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi copi o bob adroddiad i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ac yn cyflwyno crynodeb o bob adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mhob cyfarfod.

39. Bydd Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd yn cael copïau o unrhyw adroddiadau sy'n cael graddfa sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim'.

## Graddfa Sicrwydd

40. Rydym yn rhoi barn ar y lefel gyffredinol o sicrwydd ar gyfer pob aseiniad archwilio mewnol unigol. Wrth ddod i gasgliad, byddwn yn defnyddio'r diffiniadau canlynol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2019:

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| Sicrwydd sylweddol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda**.<br><br>**Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw Risgiau/Materion sylweddol neu berthnasol.** |
| Sicrwydd rhesymol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **rhesymol**.<br><br>**Mae mân wendidau o ran y modd y rheolir risg ac/neu ddulliau rheoli ond nid oes unrhyw risg i gyflawniad yr amcanion. Gall Rheolwr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw i'r rhain.** |
| Sicrwydd cyfyngedig | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **gyfyngedig**.<br><br>**Mae gwendidau sylweddol o ran rheoli risgiau ac/neu'r dulliau rheoli sy'n golygu bod risg i gyflawniad yr amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth ddatrys y rhain ac mae'n bosib y bydd raid hysbysu'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.** |
| Dim Sicrwydd | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **sylweddol ddiffygiol**.<br><br>**Mae gwendidau sylfaenol o ran rheoli risgiau ac/neu'r dulliau rheoli a fydd yn arwain at fethiant i gyflawni amcanion. Mae angen i'r UDA roi sylw brys i'r rhain ac mae'n bosibl y bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith ymyrryd.** |

# BETH YW RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN GWAITH SY'N YMWNEUD Â THWYLL

41. Nid yw archwilio mewnol yn gyfrifol am reoli'r risg o dwyll – mae hyn yn gyfrifoldeb i uwch reolwyr y Cyngor.

42. Mae polisi'r Cyngor ar gyfer Atal Twyll a Llwgrwobrwyo yn gofyn i reolwyr hysbysu'r Pennaeth Archwilio a Risg am unrhyw dwyll, llwgrwobrwyo, amhriodoldeb sy'n cael ei amau neu ei ddarganfod, er mwyn siapio ei barn ar yr amgylchedd rheoli mewnol a'r rhaglen waith archwilio mewnol yn ogystal â chaniatáu iddi sicrhau bod y Cyngor yn cymryd camau priodol.

43. Er bod archwilio mewnol yn cyflawni prosiectau rhagweithiol er mwyn dod o hyd i dwyll a/neu lwgrwobrwyo posibl ac yn gallu cynnal ymchwiliadau arbennig i anghysondebau honedig, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cadw'r hawl i benderfynu ar y camau priodol i'w cymryd, a gall hyn olygu ymchwiliad ar y cyd neu ymchwiliad gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, dylai rheolwyr anfon canlyniad yr holl weithgareddau ymchwilio i'r Pennaeth Archwilio a Risg ar gyfer eu cynnwys mewn adroddiad ar ymchwiliadau i dwyll sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.


44. Lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, gall yr archwiliwr allanol gynnal ymchwiliadau, un ai mewn cydweithrediad ag archwilio mewnol neu'n annibynnol.

# ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

45. Ar hyn o bryd, mae'r holl swyddi sydd yn y strwythur gwasanaeth wedi eu llenwi, sy'n cyfateb i 1,250 o ddiwrnodau, ar ôl caniatáu am ddyletswyddau'r Pennaeth Archwilio a Risg sydd ddim yn ymwneud ag archwilio (rheoli risg ac yswiriant).

46. Mae gennym dîm cymwys a phrofiadol gyda chymysgedd o gymwysterau perthnasol er mwyn adlewyrchu swyddogaethau amrywiol y gwasanaeth archwilio mewnol.

## Archwilio Mewnol (Medi 2019)




47. Bob blwyddyn, bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn adolygu adnoddau'r gwasanaeth archwilio mewnol drwy dderbyn y cynlluniau gweithredol a strategol ar gyfer archwilio mewnol.

48. Lle nad yw arbenigeddau penodol ar gael, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cael y rhain o'r tu allan i'r Cyngor lle mae'r adnoddau hynny ar gael.

49. Mae'r Safonau yn nodi bod yn rhaid i archwilwyr mewnol ehangu eu gwybodaeth, sgiliau a galluoedd eraill drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cynnal adolygiadau rheolaidd o anghenion datblygu a hyfforddiant yr holl archwilwyr drwy oruchwyliaeth un i un a thrwy werthusiadau blynyddol.

# MESURAU DIOGELU I GYFYNGU AR UNRHYW AMHARIAD AR ANNIGYNIAETH NEU WRTHRYCHEDD

50. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i archwilio mewnol fod yn annibynnol a rhaid iddo gael ei weld fel gwasanaeth annibynnol. Er mwyn sicrhau hyn bydd archwilio mewnol yn gweithredu o fewn fframwaith sy'n galluogi:

    - mynediad anghyfyngedig at uwch reolwyr a chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
    - adrodd yn ei enw ei hun
    - gwahaniad oddi wrth weithrediadau llinell

51. Gwneir pob ymdrech i sicrhau gwrthrychedd drwy reoli cyswllt staff archwilio gyda dyletswyddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol yn dderbyniol wrth gymryd rhan mewn prosiectau gwella gwasanaeth lle bydd yn cyflawni rôl 'ffrind beirniadol'.

52. Yn ychwanegol at hynny, mae trefniadau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth a gwrthrychedd o ganlyniad i'r ffaith bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn rheolwr llinell i'r gwasanaeth Rheoli Risg ac Yswiriant. Ni fydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn sgopio nac yn adolygu gweithgareddau archwilio mewnol sy'n ymwneud â'r maes gwasanaeth hwn. Bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn arwyddo adroddiadau.

This page is intentionally left blank

**BLAENRAGLEN WAITH**

**Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

**9 Chwefror 2020**

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg |
| E-bost: | MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Ffôn: | 01248 756211 |

| Rhif | Dyddiad | Pwnc | Rheswm am adrodd | Swyddog Cyfrifol<br>(gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ebrill 2021 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – Adroddiad y Cadeirydd | Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad y Cadeirydd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn | Cyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| 2 | Ebrill 2021 | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2020/21 | Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn bod y prif swyddog archwilio yn cyflwyno adroddiad a barn archwilio mewnol yn flynyddol, i'w ddefnyddio gan y Cyngor i gyfrannu at ei ddatganiad llywodraethiant. Mae'n rhaid i'r farn archwilio mewnol flynyddol ddod i gasgliad ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn gyffredinol.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sicrwydd a roddwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg. | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| 3 | Ebrill 2021 | Materion / Risgiau Archwilio Mewnol sy'n Weddill | Adroddiad manwl o'r holl faterion / risgiau archwilio mewnol sy'n weddill | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk<br><br>Prif Archwilydd<br>NanetteWilliams@ynysmon.gov.uk |
| 4 | Ebrill 2021 | Strategaeth Archwilio Mewnol Drafft 2021/22 | Yn unol â'r safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (2017), rhaid i'r prif swyddog archwilio gyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar gyfer eu cymeradwyo. | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |